



HMCPSI

HM Crown Prosecution
Service Inspectorate

Arolygiad o CPS Cymru-Wales: Rhaglen Arolygu Ardal Cam 3

Ionawr 2026

Os ydych chi'n gofyn i ni, gallwn ddarparu'r adroddiad hwn mewn Braille,
print bras neu mewn ieithoedd heblaw'r Saesneg.

Am wybodaeth neu am fwy o gopïau o'r adroddiad hwn,
cysylltwch â ni ar 020 7210 1160,
neu ewch i'n gwefan:
justiceinspectors.gov.uk/hmcpsi

Cyhoeddiad HMCPSI Rhif. CP001 - 1334

Pwy ydym ni

Mae HMCPSI yn arolygu gwasanaethau erlyn, gan ddarparu tystiolaeth i wneud y broses erlyn yn well ac yn fwy atebol.

Mae gennym ddyletswydd statudol i arolygu gwaith y Gwasanaeth Erlyn y Goron a'r Swyddfa Twyll Difrifol. Trwy drefniant arbennig, rydym hefyd yn rhannu ein harbenigedd gyda gwasanaethau erlyn eraill yn y DU a thramor.

Rydym yn annibynnol i'r sefydliadau rydym yn eu harolygu, ac mae ein dulliau o gasglu tystiolaeth ac adrodd yn agored ac yn dryloyw. Nid ydym yn barnu nac yn gorfodi; rydym yn

hysbysu strategaethau a gweithgareddau gwasanaethau erlyn trwy gyflwyno tystiolaeth o arfer da a materion i'w datrys. Mae arolygiadau annibynnol fel hyn yn helpu i gynnal ymddiriedaeth yn y broses erlyn.

Ein gweledigaeth

Rydym yn rhan o'r ateb i wella'r system cyfiawnder troseddol trwy arolygiad o ansawdd uchel.

Mae gennym bedwar blaenoriaeth i'n galluogi i gyflawni'r weledigaeth hon:

- Rydym yn dal Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) a'r Swyddfa Twyll Difrifol i gyfrif am yr hyn maent yn ei gyflawni (rydym yn gwneud argymhellion sy'n gyrru gwelliant)
- Bydd dioddefwyr wrth wraidd yr arolygiad (lle gallwn, byddwn yn defnyddio profiadau dioddefwyr yn ein harolygiad)
- Gan ddefnyddio ein 25 mlynedd o brofiad byddwn yn helpu erlynwyr cyhoeddus i wella (eu gwaith achos cyfreithiol)
- Bydd arolygiad yn nodi ac yn lledaenu arfer gorau.

Ein gwerthoedd

Rydym yn gweithredu gyda **gonestrwydd**, gan greu diwylliant o **barch**, gyrru **arloesedd**, dilyn **uchelgais**, ac ymrwymo i **gynhwysiant** yn ein gwaith.

Cynnwys

Cynnwys	4
1. Rhagair y Prif Arolygydd	5
2. Cyd-destun a Chefndir	8
Cefndir	9
Cyd-destun.....	12
Methodoleg	12
3. Crynodeb o'r Adroddiad	14
Crynodeb o'r Adroddiad.....	15
4. Arweinyddiaeth Gyfreithiol a Diwylliant Ardal	25
Arweinyddiaeth Gyfreithiol a Diwylliant Ardal.....	26
Cyfathrebu Mewnol.....	26
5. Creadigrwydd ac Arloesedd	34
Creadigrwydd ac Arloesedd	35
Treialon ffug.....	36
6. Gwella ac Ymgysylltu ar y Cyd.....	38
Gwella ac Ymgysylltu ar y Cyd	39
7. Adnoddau	47
Adnoddau.....	48
8. Sicrwydd	54
Sicrwydd	55
Atodiad A	61
Fframwaith arolygu.....	61
Atodiad B	67
Data archwilio ffeil	67
Atodiad C	70
Geirfa	70

1. Rhagair y Prif Arolygydd

Mae Arolygiaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron EF (HMCPSI), trwy gydol ei hanes, wedi asesu ansawdd gwneud penderfyniadau cyfreithiol y mae Ardaloedd daearyddol Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) yn eu cyflwyno.

Dros y 25 mlynedd diwethaf, mae ein harolygon wedi adrodd ein canfyddiadau, wedi gwneud argymhellion ar gyfer gwelliant ac wedi tynnu sylw at agweddau ar berfformiad a wnaed yn dda. Pan benderfynom ni ddatblygu'r Rhaglen Arolygu Ardal (AIP) yn 2021, roeddwn yn benderfynol o adrodd yr hyn roeddem ni'n ei ddarganfod, yn ogystal â datblygu rhaglen a allai bennu beth sy'n dylanwadu ar ansawdd gwaith achos.

Mae'r adroddiad hwn yn uchafbwynt y rhaglen ar gyfer ein hasesiad o CPS Cymru-Wales. Cyhoeddwyd ein hadroddiad cyntaf yn 2021, a osododd y llinell sylfaen ar ansawdd gwneud penderfyniadau cyfreithiol: yn syml, gofynnodd a oedd erlynwyr yn ychwanegu gwerth at yr achosion roeddent yn delio â nhw ac a oedd yr achosion yn cael eu trin yn effeithiol ac yn effeithlon i gynorthwyo cynnydd trwy'r broses cyfiawnder troseddol. Fe wnaethom ni hefyd asesu a oedd ansawdd cyfreithiol yn cefnogi dioddefwyr a thystion yn briodol.

Gosododd yr asesiad sylfaenol sgôr ar gyfer yr hyn a alwom yn 'werth ychwanegol' a 'gafael'. Ar y pryd, fe wnaethom ni nodi y byddem yn cynnal archwiliad dilynol i asesu a oedd yr Ardal wedi defnyddio ein canfyddiadau i wella ei pherfformiad. Cynhaliwyd yr arolygiad hwn yn 2024.

Roedd CPS Cymru-Wales yn Ardal a ddangosodd rywfaint o welliant rhwng yr arolygiad sylfaenol a'r arolygiad dilynol ar gyfer gwaith achos Llys y Goron, ond dirywiad yn y sgoriau llys ynadon. Roedd y ffaith bod yr Ardal wedi cynnal a gwella ansawdd yn yr achosion mwyaf difrifol, ond nid ar gyfer gwaith llys ynadon â chyfaint uchel, yn ganolog i'r rheswm y gwnaethom ni benderfynu archwilio CPS Cymru-Wales.

Yn debyg i'r arolygiad a gynhaliwyd gennym yn CPS Swydd Efrog a Humberside¹, mae'r arolygiad hwn yn asesu beth sy'n gyrru ansawdd gwaith achos, a pham fod CPS Cymru-Wales wedi gwella'n sylweddol mewn un agwedd ar ei gwaith achos ond nid ar draws pob math.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi ein canfyddiadau a'n syniadau ar yr hyn sydd tu ôl i'r gwahaniaeth a welsom rhwng ein harolygiadau sylfaenol ac ar ôl dilyniant. Er ei fod yn unigryw am yr hyn fe wnaethom ni ei ddarganfod yng Nghymru, rydym yn profi'r agweddau rydym yn credu sy'n pennu perfformiad Ardal: arweinyddiaeth gyfreithiol

¹ Rhaglen Archwilio Ardal Cam 3 – CPS Swydd Efrog a Humber, Arolygiaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron Ei Mawrhydi, 30 Medi 2025

a sicrwydd, defnyddio ac ymdrin ag adnoddau, ac yn olaf ymgysylltu a chydweithio â rhanddeiliaid.

Ni fyddaf yn ailadrodd canfyddiadau'r adroddiad sydd wedi'u nodi yn y crynodeb ym mhennod 3, ond mae'n amlwg bod ein canfyddiadau yn tynnu sylw at themâu a gafodd effaith uniongyrchol ar ansawdd gwaith achos. Yn ddiddorol, mae'r rhain yn debyg i'r hyn a adroddwyd gennym yn adroddiad Swydd Efrog a Humberside, ond mae rhai gwahaniaethau unigryw.

Mae colli profiad yn ogystal â recriwtio nifer fawr o erlynwyr a rheolwyr newydd, sydd, er mwyn datblygiad a rheoli risg, yn cael eu gosod yn uned llys yr ynadon i ddechrau. Mae hyn yn amlwg wedi effeithio ar ansawdd, ac mae'r newid yn y garfan uwch o reolwyr hefyd wedi effeithio ar sefydlogrwydd a chynnydd yr Ardal. Mae hyn yn ddiddorol o ystyried bod Cymru, yn hanesyddol, wedi perfformio'n gryf o'i gymharu ag Ardaloedd lleol CPS eraill.

Mae'r Ardal wedi cydnabod heriau recriwtio a newid ar raddfa fawr ac wedi datblygu hyfforddiant a chefnogaeth i gyflymu dysgu i'r rhai yn uned llys yr ynadon. Rwy'n sicr y bydd hyn yn cynyddu ansawdd gwaith achos dros amser.

Wrth gymharu CPS Cymru-Wales â'n canfyddiadau o CPS Swydd Efrog a Humberside, mae'n amlwg bod bwlch yn yr Ardal o ran gosod camau clir gyda chyfrifoldeb clir fel modd i yrru gwelliant. Mae hyn wedi effeithio ar newid mewnol ac hefyd yn amlwg yn y gwaith gyda'r heddlu, sy'n golygu bod rhai o'r un materion a effeithiodd ar ansawdd wedi parhau, yn fwy felly yn llysoedd yr ynadon.

Ond mae rhaid i ni gydnabod bod yr Ardal wedi gwella ansawdd rhwng y llinell sylfaen a'r dilyniant mewn gwaith achos Llys y Goron. Nid oedd hyn yn dasg hawdd o ystyried y tagfeydd a'r cynnydd yn y llwyth achosion. Rwy'n sicr bod y camau a gymerwyd yn yr Ardal i weithio drwy rai o'r heriau o gynyddu profiad yn atal y dirywiad a nodwyd gennym.

Rwy'n annog rheolwyr CPS, yn genedlaethol ac yn lleol, i ystyried y canfyddiadau yn adroddiad CPS Swydd Efrog a Humberside a gweithio gyda rheolwyr uwch yng Nghymru i ystyried beth allai helpu i wella gyda mwy o strwythur a chyflymder.

Rwy'n diolch i CPS Cymru-Wales am eu cefnogaeth gyda'r arolygiad ac am ganiatáu i ni brofi ein rhagdybiaethau o'r hyn sy'n gyrru ansawdd gwaith achos.



Anthony Rogers
Prif Arolygydd Ei Mawrhydi

2. Cyd-destun a Chefndir

Cefndir

2.1. Mae gwaith achos o ansawdd uchel yn hanfodol i sicrhau Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) effeithiol ac effeithlon. Mae'r arolygiaeth yn gyfrifol am asesu ac adrodd ar ansawdd gwaith achos cyfreithiol a gynhyrchir gan y CPS, ac mae'n un o'r swyddogaethau y mae Arolygiaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron Ei Fawrhydi (HMCPSI) yn eu cyflawni ar ran y cyhoedd.

2.2. Rhwng 2016 a 2019, cynhyrchodd HMCPSI gyfres o adroddiadau archwilio Ardal o dan ymbarél Rhaglen Sicrwydd Ardal (AAP). Yn ogystal ag asesu ansawdd gwneud penderfyniadau cyfreithiol CPS, darparodd sicrwydd ar anghenion corfforaethol llywodraethu sefydliadol Ardal CPS, fel arweinyddiaeth a rheolaeth ariannol.

2.3. Fe wnaethom ni ganfod bod Ardaloedd CPS yn cael eu rheoli'n dda yn gyffredinol, roedd arweinyddiaeth yn gryf, ac roedd cyllid a pherfformiad yn cael eu rheoli'n effeithiol. Ond amlygodd y rhaglen yr angen am welliant mewn agweddau allweddol ar wneud penderfyniadau cyfreithiol a rheoli achosion.

2.4. Datblygwyd Rhaglen Archwilio Ardal newydd (AIP) gyda ffocws ar gyflawniad ansawdd gwaith achos y CPS. Dyna yw ei swyddogaeth graidd ac un o'r pum llinyn o strategaeth CPS 2025.² Archwiliwyd 90 o achosion o bob un o'r 14 Ardal CPS yn ogystal ag amrywiaeth o ddogfennau.

2.5. Ffurfiodd dadansoddiad achosion ac adolygiad dogfennau sail ein canfyddiadau, ein barn a'n sgor. Aseswyd y pedwar llinyn arall o strategaeth CPS 2025 (pobl, gallu digidol, partneriaethau strategol a hyder cyhoeddus) i'r graddau eu bod yn effeithio ar ansawdd gwaith achos yn unig.

2.6. Cynhaliwyd cam cyntaf y rhaglen rhwng 2021 a 2022. Darparodd asesiadau manwl o ansawdd gwaith achos ar draws llys yr ynadon, Llys y Goron ac achosion trais a throseddau rhywiol difrifol (RASSO) ym mhob un o'r 14 Ardal.

2.7. Rydym wedi nodi ein canfyddiadau mewn 14 o adroddiadau Ardal unigol a gyhoeddwyd rhwng Hydref 2021 a Thachwedd 2022. Roedd pob adroddiad yn nodi ein sgor ar gyfer gwerth ychwanegol a gafael o ran gwaith achos ar draws y tair uned gwaith achos: unedau llys yr ynadon, timau Llys y Goron, ac achosion mewn unedau RASSO.

2.8. Diffiniwyd gwerth ychwanegol fel y gwahaniaeth a wnaed gan erlynwyr yn cymhwyso arbenigedd cyfreithiol i bob achos drwy wneud penderfyniadau erlyn da, rhagweithiol. Pan aseswyd gafael, ystyriwyd effeithiolrwydd ac

² Mae CPS 2025 bellach wedi cael ei ddisodli gan CPS 2030, sef strategaeth pum mlynedd nesaf y CPS a lansiwyd ar ^{1af} Ebrill 2025.

effeithlonrwydd datblygiad a rheolaeth achosion gan yr Ardal. Fe wnaethom ystyried a oedd yr Ardal yn dangos gafael drwy sicrhau bod achosion yn cael eu datblygu'n effeithiol ym mhob cam, a oedd y prosesau gofynnol yn cael eu cynnal ac a oedd amserlenni neu derfynau amser yn cael eu bodloni.

2.9. Mae'r adroddiadau Ardal yn gosod llinell sylfaen glir ar gyfer lefelau perfformiad. Gellir cael mynediad at adroddiad llinell sylfaen Cymru-Wales yma.³

2.10. Ar ôl gosod y llinell sylfaen o berfformiad, ein bwriad oedd dilyn yr arolygiadau cychwynnol a gweld a oedd Ardaloedd wedi gwella.

2.11. Nodau'r AIP dilynol oedd:

- ailasesu ansawdd gwaith achos yn dilyn yr asesiad llinell sylfaen
- cymharu ansawdd gwaith achos o'r AIP dilynol â'r llinell sylfaen. Nodi ble mae gwelliannau wedi'u gwneud a/neu mae perfformiad wedi dirywio ac felly nodi cyfeiriad teithio
- i ddarparu digon o dystiolaeth i alluogi Arolygiaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron Ei Fawrhydi i weithredu dull arolygu wedi'i dargedu, yn seiliedig ar risg i Ardaloedd CPS yn y dyfodol trwy nodi'r Ardaloedd lle mae ansawdd gwaith achos wedi'i asesu fel un sy'n dirywio
- ein galluogi i wneud cymariaethau uniongyrchol, gan fod yr AIP dilynol wedi asesu ansawdd gwaith achos gan ddefnyddio'r un mesurau â'r rhai yn y llinell sylfaen.

2.12. Fe wnaethom ni ddadansoddi data llinell sylfaen a dilynol yr AIP i amlygu cyfeiriad teithio perfformiad ar gyfer pob un o'r 14 Ardal CPS a gosod y canfyddiadau allan yn ein hadroddiad dilynol.⁴ Fe wnaethom ni ddefnyddio'r data hwnnw i nodi'r Ardaloedd CPS i ymweld â nhw yn nhrydedd cam yr AIP. Dewiswyd Ardaloedd lle roedd gwelliant neu ddirywiad sylweddol i archwilio beth sy'n gyrru ansawdd gwaith achos. Dewiswyd CPS Swydd Efrog a Humber a CPS Cymru-Wales.

2.13. Gan ddefnyddio ein 25 mlynedd o brofiad yn archwilio'r CPS, fe wnaethom nodi prif ysgogwyr gwaith achos. Ar gyfer yr arolygiad hwn, canolbwyntiwyd ar dri phrif gydran i asesu a gwerthuso beth wnaeth wahaniaeth i ansawdd gwaith achos yn yr Ardaloedd hynny.

³ [Rhaglen archwilio Ardal Gwasanaeth Erlyn y Goron EF Cymru-Wales, 12 Hydref 2021](#)

⁴ [Rhaglen Arolygu Ardal – Dilyniant, Arolygiaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron EF, 28 Ionawr 2025](#)

2.14. Y tri chydran yw: arweinyddiaeth gyfreithiol a sicrwydd, defnyddio ac ymdrin ag adnoddau, ac ymgysylltu a chydweithio â rhanddeiliaid.

2.15. Nod cam 3 o'r AIP oedd asesu a oedd y ffactorau hyn yn effeithio ar ganlyniadau Ardal CPS ar gyfer gwerth ychwanegol a gafael yn dilyn y data o'r AIP sylfaenol, a sut. Trwy wneud hynny, rydym yn ceisio cael mewnwelediadau a all lywio gwelliannau mewn ansawdd gwaith achos a gwella effeithiolrwydd gweithredol cyffredinol ar draws pob Ardal CPS.

2.16. Dirywiodd canlyniadau CPS Cymru-Wales ar gyfer gwerth ychwanegol a gafael o'r sylfaen i'r dilyniant, ar draws llys yr ynadon a Llys y Goron. Mae'r data o AIP yn dangos bod CPS Cymru-Wales wedi dirywio mewn gwerth ychwanegol (i lawr 8.4 pwynt canran) a gafael (i lawr 6.2 pwynt canran) yn y MCU o'n ffigurau sylfaenol. Yn nhîm y Llys y Goron, gwelodd gwerth ychwanegol (i fyny 5.2 pwynt canran) ond dirywiodd gafael, er ei fod yn dechrau o bwynt cychwyn cymharol uchel (i lawr 1.2 pwynt canran) o'n ffigurau sylfaenol. Felly, dewiswyd CPS Cymru-Wales fel yr ail Ardal CPS i gael ei harchwilio fel rhan o'r AIP⁵.

Gafael a Gwerth Ychwanegol			
Gwerth ychwanegol	Llys yr Ynadon		
	Sylfaen	Dilyniant	Cyfeiriad Teithio
Cymru-Wales	64.9%	56.5%	▼
Llys y Goron			
	Sylfaen	Dilyniant	Cyfeiriad Teithio
Cymru-Wales	65.5%	70.7%	▲
Gafael	Llys yr Ynadon		
	Sylfaen	Dilyniant	Cyfeiriad Teithio
Cymru-Wales	66.2%	60.0%	▼
	Llys y Goron		
	Llinell Sylfaen	Dilyniant	Cyfeiriad Teithio
Cymru-Wales	76.8%	75.6%	▼

⁵ CPS Swydd Efrog a Humberside oedd yr Ardal gyntaf i gael ei harchwilio fel rhan o'r AIP3. Cyhoeddwyd ein hadroddiad ar 30 Medi 2025. [Rhaglen Archwilio Ardal Cam 3 – CPS Swydd Efrog a Humberside, Arolygiaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron EF](#).

Cyd-destun

2.17. Mae gan CPS Cymru-Wales swyddfeydd yng Nghaerdydd, Abertawe a'r Wyddgrug ac mae wedi'i alinio â heddluoedd De Cymru, Gwent, Dyfed Powys a Gogledd Cymru. Mae'n cwmpasu 13 o lysiau ynadon a phedwar canolfan Llys y Goron.

2.18. Yn chwarter cyntaf 2025-26, roedd llwyth achosion llysoedd ynadon yr Ardal yn 23,789, a oedd yn cynrychioli cynnydd o 7% o'r chwarter cyntaf o 2024-25. Yn ystod yr un cyfnod, roedd llwyth achosion Llys y Goron yr Ardal yn 4,191, a oedd yn gynnydd o 4.8%.

2.19. Yn y 12 mis hyd at Fawrth 2025, roedd gan yr Ardal gyfwerth ag amser llawn o 305 o staff a'i chyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol 2024-25 oedd £28,462,064.

Methodoleg

2.20. Wrth gynnal yr arolygiad hwn o CPS Cymru-Wales, ceisiasom ni ateb y cwestiwn arolygu: Beth sy'n gyrru ansawdd gwaith achos yn yr Ardal?

2.21. Yn ystod Mehefin a Gorffennaf 2025, treuliodd y tîm arolygu dair wythnos ar y safle, gan gynnal cyfweiliadau a grwpiau ffocws gyda staff o CPS Cymru-Wales a rhanddeiliaid eraill. Roedd y cyfnod hwn yn cynnwys:

- cyfweiliadau a grwpiau ffocws gyda staff CPS, ar draws pob gradd, gan gynnwys personél cyflenwi cyfreithiol a gweithredol
- cyfweiliadau gyda chynrychiolwyr o'r pedwar heddlu, gan gynnwys Comisiynwyr Heddlu a Throseddu: Heddlu De Cymru, Heddlu Gwent, Heddlu Dyfed Powys a Heddlu Gogledd Cymru
- cyfweiliadau gyda barnwyr lleol o'r llysoedd ynadon a chanolfannau Llys y Goron
- cyfweiliadau gyda Gwasanaethau Cymorth i Ddiodefwyr a Thystion a chynrychiolwyr o grwpiau cymunedol lleol
- cyfweiliadau gyda chynrychiolwyr undebau llafur ac amddiffyniad.

2.22. Fe wnaethom ni ofyn am a derbyn dogfennau gan yr Ardal sy'n berthnasol i'r tri chydran allweddol: arweinyddiaeth gyfreithiol a sicrwydd, defnyddio ac ymdrin ag adnoddau, ac ymgysylltu a chydweithio â rhanddeiliaid. Adolygodd ac arfarnodd yr arolygwyr y dogfennau hyn yng ngoleuni'r cwestiwn arolygu.

2.23. Cynhaliodd yr arolygwyr wiriadau ar 12 achos erlyniad byw (chwe achos Llys y Goron a chwe achos llysoedd ynadon) a oedd â therfynau amser cadw

gweithredol, i asesu cadarnrwydd a chysondeb prosesau terfyn amser cadw'r Ardal.

2.24. Archwiliwyd wyth Asesiad Ansawdd Unigol ⁶ nad sy'n ymwneud ag eiriolaeth/gwaith achos i arfarnu ansawdd yr asesiadau a berfformiwyd gan reolwyr cyfreithiol a'u heffaith wrth yrru safonau ansawdd gwaith achos. Roedd pob un o'r achosion hyn hefyd wedi cael sicrwydd ansawdd gan uwch reolwr cyfreithiol, felly gallem asesu effaith y broses sicrwydd.

2.25. Cynhaliwyd arsylwadau llys i asesu effeithiolrwydd datblygiad achos a'r perthnasoedd â rhanddeiliaid mewn gwahanol lysoedd. Mynychwyd cymysgedd o lysoedd ynadon a Llysoedd y Goron yng Nghaerdydd, Abertawe, Yr Wyddgrug, Merthyr Tudful, Casnewydd a Llanelli.

2.26. Cyn cyfnod ein harchwiliad ar y safle, dosbarthwyd holiadur i holl staff yn CPS Cymru-Wales. Cyfeiriodd pob cwestiwn at gydran benodol: arweinyddiaeth gyfreithiol a sicrwydd, defnyddio ac ymdrin ag adnoddau, ac ymgysylltu a chydweithio â rhanddeiliaid. Ystyriwyd yr ymatebion gan arolygwyr ac, os oedd yn briodol, cyfeiriwn atynt yn yr adroddiad⁷.

2.27. Arweiniwyd yr archwiliad hwn gan arolygwyr cyfreithiol Dan Richardson ac Eleanor Reyland. Cynorthwywyd nhw gan uwch arolygydd cyfreithiol Jeetinder Sarmotta, ac arolygwyr cyfreithiol Lauranne Middleton, Oriana Frame, Siaf Alam a Mark Langan. Cefnogwyd yr archwiliad gan Weinyddwyr Tîm Gwasanaethau Busnes Shauna Compton a Ben Hayter.

⁶ Mae asesiad ansawdd unigol yn system a ddefnyddir i arfarnu ansawdd gwaith achos a ddelir gan erlynnwyr unigol, gan ganolbwyntio ar benderfyniad cyfreithiol, tystiolaeth, a sut mae achosion yn cael eu paratoi a'u cyflwyno.

⁷ Cyfradd ymateb i'r arolwg oedd 21.6%.

3. Crynodeb o'r Adroddiad

Crynodeb o'r Adroddiad

3.1. Canfu arolygwyr fod ansawdd gwaith achos yn flaenoriaeth a ffocws clir i'r Ardal, ac roedd rhai meysydd o ragoriaeth yn amlwg yn cael effaith ar ysgogi gwaith achos o ansawdd uchel, a rhai agweddau yn wannach ac felly'n cael llai o effaith.

3.2. Mae'r Ardal wedi dangos dull rhagweithiol tuag at arweinyddiaeth a chyfathrebu, gan ddefnyddio amrywiaeth o sianeli fel galwadau gyda phob aelod o staff, bwletinâu wythnosol, cyfarfodydd tîm ac uwchraddiadau mewnwrwyd i gadw staff yn wybodus ac yn ymgysylltiedig. Roedd hefyd strategaeth glir wedi'i chynllunio i feithrin tryloywder a chynhwysiant. Byddai cyflwyno ffordd o gynyddu cysondeb wrth ledaenu negeseuon sefydliadol, gan reolwyr llinell mewn cyfarfodydd tîm, yn ategu'r dull hwn ymhellach ac yn sicrhau eglurder a chydlynad ar draws yr Ardal.

3.3. Roedd y Prif Erlynydd y Goron yn arbennig o weladwy ac yn ymgysylltiedig, yn ymweld â swyddfeydd yn rheolaidd ac yn cynnal polisi drws agored. Roedd y gweledd hwn yn meithrin ymddiriedaeth ac ymdeimlad o gysylltiad ar draws yr Ardal. Er bod gweledd rheolwyr eraill yn amrywio, yn enwedig mewn rolau sy'n seiliedig ar y llys, mae'r diwylliant cyffredinol yn un o agoredrwydd a chefnogaeth cyfoedion.

3.4. Disgrifiodd y CCP CPS Cymru-Wales fel un sy'n mynd trwy gyfnod o drawsnewid. Mae hynny oherwydd bod yr Ardal wedi wynebu heriau sylweddol oherwydd y dirywiad sydyn mewn staff profiadol yn ystod 2022-2024 yn ogystal â newidiadau i'r tîm Arweinyddiaeth Uwch, sydd - fel mae ein canfyddiadau AIP yn dangos - wedi effeithio ar ansawdd gwaith achos yn llys yr ynadon.

3.5. Wrth i ni gynnal yr asesiad sylfaenol yn yr Ardal yn 2021, roedd ganddi weithlu sefydlog gyda phrofiad helaeth. Erbyn i ni gynnal ein hasesiad dilynol yn 2024, roedd hyn wedi newid yn sylweddol, gyda newidiadau arwyddocaol ar lefelau erlynydd a rheolwr cyfreithiol. Mae'r cynnydd hwn mewn nifer o staff newydd a dibrofiad wedi cael effaith ar ansawdd gwaith achos gyda'r erlynwyr newydd, llai profiadol wedi'u lleoli yn uned llys yr ynadon a'r erlynwyr mwy profiadol yn Llys y Goron a'r timau Trais a Throseddau Rhywiol Difrifol (RASSO). Roedd hyn hefyd yn cael ei adlewyrchu yn y profiad o'r garfan rheoli cyfreithiol rheng flaen.

3.6. Mae'r newid sylweddol mewn profiad yn llys yr ynadon yn cael ei adlewyrchu yn ein canfyddiadau dilynol a ddangosodd ddirywiad mewn gwerth ychwanegol a gafael. Mae'r dirywiad yn mherfformiad uned llys yr ynadon yn cael ei osod yn erbyn perfformiad sefydlog tîm Llys y Goron sy'n parhau i berfformio'n dda, gyda gwelliant mewn gwerth ychwanegol er bod dirywiad bach mewn gafael ar gyfer

gwaith achos Llys y Goron, ond mae'r ddau yn dal i adlewyrchu gwaith achos o ansawdd da ar dros 70% ar gyfer gwerth ychwanegol a gafael. Mae'r Ardal wedi canolbwyntio'n ddealladwy ar ddefnyddio adnoddau profiadol ar waith achos mwy difrifol.

3.7. Roedd hyfforddiant a datblygiad yn yr Ardal yn gryfder. Adroddodd staff yn eang bod hyfforddiant wedi arwain at welliannau yn ansawdd gwaith achos. Datgelodd ein harolwg fod 83.3% yn teimlo bod hyfforddiant wedi cael effaith gadarnhaol ar ansawdd eu gwaith achos⁸.

3.8. Cyflwynwyd sesiynau datblygu misol bach yn uned llys yr ynadon i fynd i'r afael â materion perfformio ac fe'u canmolwyd gan erlynwyr am eu perthnasedd a'u hygyrchedd. Roedd hyfforddiant a oedd wedi'i ganolbwyntio ar gam budd y cyhoedd o'r Cod i Erlynwyr y Goron ('y Cod') wedi gwella ansawdd penderfyniadau cyhuddo ac adolygiadau. Helpodd diwrnod i ffwrdd i dîm Llys y Goron i hybu ysbryd ac ailgysylltu staff â'r effaith ehangach o'u gwaith.

3.9. Gwelsom fod yr hyfforddiant cenedlaethol ar gyfer staff cyflenwi gweithredol newydd yn effeithiol yn gyffredinol, ond yn destun oedi a achoswyd gan yr angen i gyflawni hyfforddiant ac achredu gorfodol ar y system rheoli achosion a hyfforddiant golygu, a oedd yn cyfyngu cynhyrchiant cynnar. Roedd dysgu dan arweiniad cyfoedion yn gyffredin; er ei fod yn arwydd o ddiwylliant tîm cydweithredol, roedd hyn yn peryglu anghysondeb.

3.10. Mae hyfforddiant a datblygiad wedi'u cryfhau ymhellach gan dreialon ffug yn uned llys yr ynadon. Roedd y digwyddiadau hyn, dan arweiniad Erlynwyr y Goron Sirol ac yn cynnwys cydweithwyr yr heddlu, yn darparu profiad gwerthfawr o'r llys a hyfforddiant eiriolaeth wedi'i dargedu gyda'r nod o gynyddu gallu a phrofiad erlynwyr llysoedd ynadon. Cafodd erlynwyr eu neilltuo at elfennau treial, gyda gwerthusiad a sicrwydd gan reolwyr cyfreithiol drwy adborth a sesiynau dan arweiniad cyfoedion i atgyfnerthu dysgu. Derbyniwyd yr ymgyrch yn dda a bwriedir ei gyflwyno'n ehangach. Roedd hyn yn arfer da.

3.11. I fynd i'r afael â phrinder cyfreithwyr sy'n siarad Cymraeg, mae'r Ardal wedi lansio Cynllun Hyfforddi Cyfreithiol Cymraeg. Mae'r fenter strategol hon yn cefnogi cydymffurfiaeth iaith gyfreithiol a datblygiad y gweithlu. Mae'r cynllun yn helpu i yrru ansawdd gwaith achos mewn erlyniadau sy'n ymwneud ag amddiffynwyr a dioddefwyr a thystion sy'n siarad Cymraeg.

3.12. Ar gyfer rheolwyr cyfreithiol, mae'r Ardal wedi cyflwyno'r Fforwm Arweinyddiaeth Gyfreithiol. Mae'r fforwm misol hwn yn cynnig hyfforddiant strwythuredig a dysgu cyfoedion, gan ganolbwyntio ar wybodaeth gyfreithiol a

⁸ Cwestiwn arolwg: Pa effaith yw'r hyfforddiant a ddarperir i staff rheng flaen cyfreithiol neu anghyfreithiol CPS wedi'i chael ar ansawdd gwaith achos?

datblygiad talent mewnol, ac mae'n un o'r offerynnau y mae'r Ardal yn eu defnyddio i ddatblygu ei rheolwyr cyfreithiol llai profiadol.

3.13. Roedd pwysau llwyth gwaith yn cael eu crybwyll yn aml gan erlynwyr fel rhwystr i gael mynediad at gyrsiau hyfforddi hirach neu genedlaethol. Er bod erlynwyr ar bob lefel yn mynegi balchder yn eu gwaith a chymhelliant i gyflawni canlyniadau cyfiawn, roedd cymhlethdod a chyfaint y llwythi achosion yn cael eu gweld gan lawer fel rhwystr i gynyrrch cyson o ansawdd uchel.

3.14. Ers y pandemig, mae'r Ardal wedi gorfod addasu i lefelau staffio a phrofiad llai, yn enwedig mewn swyddi uwch, oherwydd ymddeoliadau, dyrchafiadau a staff yn symud i rolau Pencadlys Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS). Mae recriwtio wedi gwella, ond mae'r broses o gyflwyno staff newydd wedi cyd-daro â staff profiadol yn gadael, gan greu heriau parhad a hyfforddiant. Er bod cynllunio olyniaeth ac ymdrechion cadw staff bellach ar waith, mae bylchau cynharach wedi cyfrannu at bwysau.

3.15. Mae trosiant uchel, dyrchafiadau dros dro a recriwtio o gefndiroedd nad sy'n droseddol hefyd wedi cyfrannu at greu bylchau yn y gallu arweinyddiaeth. Mae hyn wedi effeithio ar oruchwyliaeth, rheoli perfformiad ac ansawdd gwaith achos, yn enwedig yn uned llys yr ynadon oherwydd diffyg hyder ymhlith rheolwyr i fynd i'r afael â materion.

3.16. Mynegodd erlynwyr yn uned llys yr ynadon y farn bod cefnogaeth ar ôl cyflwyno yn brin. Oherwydd diffyg profiad rhai rheolwyr, dywedwyd wrthym fod erlynwyr newydd yn ceisio llenwi bylchau sgiliau eu hunain drwy gysgodi cydweithwyr profiadol yn anffurfiol. Gall y dull hwn roi ansawdd gwaith achos mewn perygl yn absenoldeb goruchwyliaeth reolaethol effeithiol.

3.17. Mae rhai rheolwyr cyfreithiol wedi mynegi pryder am y broses sefydlu ar gyfer Erlynwyr y Goron Sirol sydd newydd eu dyrchafu. Er bod cynllun sefydlu yn bodoli, nid yw'n cael ei ddilyn yn gyson nac yn cael ei gydnabod fel rhan o lwybr hyfforddi ffurfiol, o bosibl oherwydd y nifer uchel o reolwyr cyfreithiol ar hyrwyddiad dros dro na allent gael mynediad at y rhaglen sefydlu lawn. O ganlyniad, mae hyn wedi gadael cymwyseddau rheoli ehangach heb eu datblygu'n llawn. Ynghyd â lefel y rheolwyr newydd yn y gadwyn reoli uned llys yr ynadon, mae hyn yn cael effaith andwyol ar ansawdd gwaith achos.

3.18. Mae gan yr Ardal gynllun datblygu ar gyfer erlynwyr yn uned llys y magistrad. I fynd i'r afael â'r bylchau sgiliau a meithrin profiad mae gan yr Ardal bolisi i erlynwyr yn llys yr ynadon symud rhwng rolau eiriolaeth, cyhuddo ac adolygu bob pedwar i chwe mis. Mae'r dull hwn yn anelu at wella effeithlonrwydd ac ansawdd gwaith achos trwy alluogi i gyfreithwyr ganolbwyntio ar un agwedd ar y rôl ar y tro, datblygu arbenigedd, ac ymateb yn hyblyg i anghenion busnes sy'n newid. Er enghraifft,

cafodd adnoddau eu symud i fynd i'r afael â'r ôl-groniadau cyhuddo, gan leihau'n gyflym nifer yr achosion cyhuddo hwyr.

3.19. Cyflwynwyd rhaglen sefydlu leol yr Ardal yn 2023-24 pan brofwyd nifer uchel o erlynwyr newydd yn ymuno. Derbyniodd gydnabyddiaeth genedlaethol am ei ddull strwythuredig a theilwredig, a oedd yn cynnwys amserlenni manwl, disgwyliadau mentora ac adolygiadau cynnydd rheolaidd. Cafodd hyn ei nodi fel arfer da.

3.20. Er bod pob aelod o staff yn cael eu hannog i weithio gyda'i gilydd ar draws yr Ardal, nid yw hyn yn cael ei gefnogi'n gyson gan berchnogaeth ar y cyd o faterion a chanlyniadau. Fel y nodwyd yn ein hadroddiad diweddar o CPS Swydd Efrog a Humberside⁹, mae gweithio cydweithredol effeithiol rhwng staff cyflwyno cyfreithiol a gweithredol yn hanfodol i gyflwyno achosion o ansawdd uchel yn effeithiol ac yn effeithlon. Thema gyffredin a glywyd mewn cyfweiliadau staff CPS Cymru-Wales oedd y diffyg cyfathrebu effeithiol rhwng timau cyflwyno cyfreithiol a gweithredol. Mynegodd staff cyflwyno gweithredol y farn - yn ogystal â gwahanu corfforol a gweithio o bell - eu bod yn aml yn teimlo eu bod wedi'u heithrio o drafodaethau strategol, sydd wedi rhwystro cyfleoedd dysgu anffurfiol a gweithio cydweithredol.

3.21. Ond mae menter beilot paragyfreithiwr yn swyddfa'r Wyddgrug i fod i gael ei lansio ym mis Medi 2025, ar ôl i'n gweithgaredd ar y safle ddod i ben ond cyn cyhoeddi ein hadroddiad. Mae'r peilot yn ceisio ailddiffinio rolau o fewn tîm y Llys y Goron, gan ganiatáu i erlynwyr ganolbwyntio ar wneud penderfyniadau cyfreithiol a strategaeth, tra bod paragyfreithwyr yn darparu cefnogaeth gyfreithiol gwell. Disgwylir i'r fenter hon feithrin cyd-berchnogaeth o achosion, gwella cydymffurfiaeth a chryfhau cydweithrediad rhwng timau cyflawni gweithredol a thimau cyfreithiol. Er gwaethaf rhai o'r heriau hyn, mae ysbryd y staff yn parhau i fod yn uchel ac mae'r diwylliant ar draws pob tîm wedi'i ddisgrifio fel un cefnogol.

3.22. Trwy gydol y cyfweiliadau, mynegodd staff y farn bod rheolwyr yn cael eu parchu'n fawr. Cawsom wybod bod yna ymgysylltiad un-i-un, tîm ac Ardal rheolaidd, gyda staff yn teimlo eu bod nhw'n cael cefnogaeth dda. Roedd rhai erlynwyr wedi nodi eu bod yn croesawu'r polisi drws agored a fabwysiadwyd gan sawl rheolwr yn fawr, gan gynnwys y tîm arweinyddiaeth uwch. Mae lefelau uchel o agosatrwydd, parodrwydd cryf i drafod achosion a brwdfrydedd i ddysgu o'r trafodaethau hyn yn cyfrannu at wella ansawdd gwaith achos. Ond mae diffyg profiad mewn rhai mannau yn rhwystro'r effeithiolrwydd hwn ar draws yr Ardal yn ei chyfanrwydd.

⁹ [Rhaglen Archwilio Ardal Cam 3 – CPS Swydd Efrog a Humber, Arolygiaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron Ei Mawrhydi, 30 Medi 2025](#)

3.23. Roedd strwythurau llywodraethu, fel cadw cofnodion, monitro logiau gweithredu a mesur allbynnau ar waith ar draws yr holl unedau ond yn cael eu cymhwyso'n anghyson. Mae data perfformiad yn hanfodol ar gyfer monitro a gwella gwaith achos, gan helpu rheolwyr i ddyrannu adnoddau a chymell staff pan fo'n berthnasol i'w rolau. Gwelwyd enghraifft gryf o ddefnydd effeithiol o ddata yn nhîm y Llys y Goron, lle gostyngodd ymdrechion targedig nifer yr achosion cyhuddo hwyr yn sylweddol. Defnyddiodd rheolwyr ddangosyddion perfformiad allweddol i amlygu cynnydd a nodi meysydd sydd angen cefnogaeth, sydd wedi gwella ansawdd gwaith achos.

3.24. Ond roedd anghysondebau yn y ffordd roedd data yn cael ei rannu a'i ddeall ar draws timau. Dywedodd rhai staff, yn enwedig mewn rolau cyflawni gweithredol, eu bod yn gweld y data yn amherthnasol i'w rolau neu'n brin o gyd-destun. Dywedodd erlynwyr wrthym eu bod yn gwerthfawrogi data pan oedd yn gysylltiedig yn glir â'u gwaith. Adolygodd uwch reolwyr ddata perfformiad allweddol yn rheolaidd, ond roedd anghysondeb yn y ffordd roedd hyn yn cael eu rhannu gyda thimau ar lefel weithredol i ysgogi gwelliant.

3.25. Er ein bod wedi gweld tystiolaeth, yn fwy felly yn uned y Llys y Goron, o gamau'n cael eu cymryd i wella, byddai dull mwy fforensig a strwythuredig, i gefnogi gweithgaredd gwelliant, yn ddefnyddiol. Er ei bod yn amlwg bod dadansoddiad a data perfformiad yn cael eu defnyddio mewn mannau i nodi a gyrru camau gyda phobl sy'n cael eu dal i gyfrif am gyflawniad, nid oedd hyn yn gyson. Roedd tystiolaeth o faterion hir-sefydlog yn llithro ac heb eu datrys. Gyda ffocws mwy cyson ar ddilyn camau ar draws yr Ardal byddai effaith gadarnhaol ar yrru gwelliannau ansawdd gwaith achos cyffredinol.

3.26. I gynyddu effeithiolrwydd Asesiadau Ansawdd Unigol wrth wella ansawdd gwaith achos, cyflwynodd yr Ardal broses asesiad ansawdd unigol ddiwygiedig. Roedd y broses hon yn debyg i'r dull a argymhellwyd gennym yn ein hadroddiad asesiad ansawdd unigol a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2025¹⁰ lle mae sgwrs achos arddull hyfforddi a mentora cydweithredol sy'n arwain at gwblhau'r ffurflen asesiadau ansawdd unigol. Mae ein hasesiad o asesiad ansawdd unigol Ardal yn dangos bod mwy i'r Ardal ei wneud i wella ansawdd eu hasesiadau.

3.27. Mae Paneli Rheoli Achosion Lleol yn darparu goruchwyliaeth uwch ar gyfer achosion risg uchel neu sensitif, gan gefnogi cyfreithwyr a sicrhau ansawdd, er bod eu cwrdd cyfyngedig yn cyfyngu ar effaith ehangach. Mae trafodaethau achos anffurfiol a phaneli thematig hefyd yn cael eu defnyddio i fynd i'r afael â phryderon penodol, fel erlyniadau cam-drin domestig sy'n cael eu harwain gan dystiolaeth,

¹⁰ [Asesiad Ansawdd Unigol: Arolygiad o sut mae'r CPS yn defnyddio IQA i fonitro a gwella ansawdd achos. Arolygiaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron Ei Mawrhydi, 27 Chwefror 2025](#)

ond mae diffyg cofnodi ffurfiol a gweithredoedd dilynol wedi gwanhau effeithiolrwydd.

3.28. Mae Bwrdd Ansawdd Achosion wedi'i gyflwyno yn uned llys yr ynadon i wella gwneud penderfyniadau ac eiriolaeth, gyda themâu misol yn cael eu hatgyfnerthu trwy asesiadau ansawdd unigol wedi'u targedu. Unwaith eto, byddai dull mwy strwythuredig o weithredoedd a chanlyniadau yn cefnogi'r effaith sydd gan y bwrdd hwn ar ansawdd gwaith achos.

3.29. Mae gan yr Ardal systemau ar waith i fonitro Terfynau Amser Carcharu. Roedd cofnodion adolygu achosion a sicrwydd yn cael eu cwblhau yn unol â'r polisi cenedlaethol, gyda gwiriadau wythnosol a phrotocolau esgyniad ar waith. Mae'r Ardal yn dangos perfformiad cryf yn gyffredinol, gyda methiannau Terfyn Amser Carcharu unigol a dull gweithredu rhagweithiol. Mae gwendidau yn achosion Terfyn Amser Carcharu llysoedd ynadon yn gysylltiedig â diffyg profiad a diffyg perchnogaeth. Mae newid proses nawr yn sicrhau bod cyfreithwyr yn cadw achosion Terfyn Amser Carcharu wrth gylchdroi timau i wella cysondeb.

3.30. Er bod dioddefwyr a thystion yn flaenoriaeth i Gymru, gwelsom ar adeg ein harolygiad fod yr Uned Cyswllt Dioddefwyr yn mynd trwy gyfnod o newid sylweddol yn dilyn ymadawiad arweinydd tîm hirhoedlog. Er bod hyn wedi creu heriau, gan gynnwys diffyg swyddogion sy'n siarad Cymraeg a chyfranogiad cyfyngedig mewn cyfarfodydd strategol, roedd yr Ardal yn ymwybodol o'r materion hyn ac yn cymryd camau i fynd i'w datrys.

3.31. Roedd cam-drin domestig yn flaenoriaeth strategol ar draws Cymru, gyda chydweithrediad agos rhwng yr heddlu a'r CPS yn arwain at baratoi ffeiliau yn fwy effeithlon ac ymgysylltu â dioddefwyr. Mae Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol (BCTLLau) yn monitro dangosyddion perfformiad allweddol, fel amseroldeb cyn-gyhuddo, sydd wedi gweld gwelliant sylweddol. Mae camau ar y cyd i fynd i'r afael ag ôl-groniadau'r llys wedi'u datrys trwy gynyddu argaeledd llys, gan gynnwys ar benwythnosau a gwyliau. Mae arweinwyr yn yr Ardal yn chwarae rôl rhagweithiol yn y BCTLLau yng Nghymru sydd yn ei dro wedi gwella agweddau penodol ar ansawdd gwaith achos, yn enwedig trwy ganolbwyntio ar achosion cam-drin domestig.

3.32. Bwriad Cyfarfodydd Gwella Gweithredol ar y Cyd (JOIMs) yw bod yn brif fforwm ar gyfer cydweithredu a gwella gweithredol rhwng yr heddlu a'r CPS. Ond gwelom ni eu bod wedi'u cofnodi'n wael ac yn canolbwyntio gormod ar gyflwyno data yn hytrach na gweithredoedd i wella. Mae'r data a ddefnyddir yn aml yn hen neu'n brin o gefnogaeth ddadansoddol ac mae CPS Cymru-Wales yn ei chael hi'n anodd cyrraedd y lefel o fanylder a ofynnir gan heddluoedd. Roedd JOIMs strategol yn wynebu heriau tebyg, heb unrhyw dystiolaeth glir eu bod yn dylanwadu'n gadarnhaol ar ansawdd gwaith achos, er gwaethaf newidiadau llywodraethu

diweddar a anelwyd at wella cysondeb. Er gwaethaf yr heriau hyn, mae CPS Cymru-Wales wedi dangos perfformiad cryf yn ddiweddar mewn cydymffurfiaeth ag Asesiad Canllawiau'r Cyfarwyddwr, gan gyrraedd y safle uchaf yn genedlaethol ym mis Mehefin 2025.

3.33. Mae'r Ardal yn cynnal Paneli Ymglymiad Craffu Lleol dair gwaith y flwyddyn i drafod materion a gwella arferion CPS. Dangosodd paneli ar Droseddau Casineb a Thrais yn Erbyn Menywod a Merched ymgysylltiad cymunedol cryf a thrafodaethau cadarn, ond eto, roedd olrhain gweithredoedd yn wan ac ni chafodd canfyddiadau eu dilyn yn gyson. Er i rai gwelliannau gael eu nodi, mae diffyg monitro ffurfiol yn ei gwneud hi'n anodd asesu effaith y Paneli Ymglymiad Craffu Lleol.

3.34. Mae'r gwelliannau mwyaf arwyddocaol mewn safonau gwaith achos wedi dod o waith partneriaeth strategol a mentrau hyfforddi wedi'u targedu a gynhaliwyd y tu allan i fframwaith JOIMs. Roedd rhain yn cynnwys gweithdai ar gynlluniau gweithredu achos, hyfforddiant datgelu ac ymdrechion cydweithredol i ddeall heriau fforensig digidol. Disgrifiwyd rhai o'r ymdrechion hyn gan yr heddlu fel rhai trawsnewidiol.

3.35. Mae gan yr Ardal berthnasoedd strategol cryf â'r heddlu, y farnwriaeth, Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF a grwpiau cymunedol. Roedd Prif Erlynydd y Goron a'r uwch reolwyr yn cael eu parchu'n dda gan bartneriaid allanol gyda thystiolaeth o ymgysylltiad ystyrlon, er nad oedd hyn bob amser yn cael ei adlewyrchu ar lefel weithredol.

3.36. Roedd cyfarfodydd chwarterol rhwng Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF a'r CPS yn cael eu hystyried yn adeiladol, gyda gwelliannau wedi'u nodi o ran ansawdd gwaith achos ac arferion datgelu. Ond nododd staff cyflawni gweithredol bryderon am benderfyniadau a gymerwyd gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF, fel neilltuo treialon i lysoedd remand, sy'n effeithio'n andwyol ar ansawdd gwaith achos.

3.37. Mae effeithlonrwydd gweithredol wedi'i dargedu trwy grwpio llysoedd gwrandawriad paratoi at ble a threial, lle roedd gwrandawiadau wedi'u grwpio ar ddydd Llun a dydd Gwener yn Llys y Goron Caerdydd. Mae'r newid hwn, a gefnogwyd gan ddefnyddio rheolwr cyfreithiol yn y llys, wedi arwain at ymgysylltiad mwy adeiladol yn y llys a gwell cynnydd achos. Roedd dadansoddi data ar y gweill ar adeg ein harolygiad i asesu effaith y newid hwn a llywio gwelliannau yn y dyfodol.

3.38. Roedd rhestru arferion yn achosi straen ar adnoddau'r CPS ac yn effeithio ar baratoi a chyfathrebu â dioddefwyr a thystion, gyda'r hysbysiad byr o newidiadau lleoliad yn y Llys y Goron ynghyd â'r lledaeniad daearyddol o ganolfannau llys yn cyfuno'r mater. Mae'r Ardal yn cymryd rhan i ddylanwadu ar newid.

3.39. Yn gyffredinol, mae'r Ardal wedi dangos perthynas effeithiol â'r llysoedd sy'n helpu i yrru ansawdd gwaith achos. Gellir gweld enghraifft drwy'r cydweithio a'r heddlu a Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF ar ddechrau 2025. Nododd yr Ardal gynnydd sylweddol mewn rhestr treialon ar draws llysoedd ynadon De Cymru, gyda chyfran fawr yn droseddau traffig ffyrdd. Cafodd hyn ei olrhain i'r heddlu heb ddefnyddio'r Weithdrefn Cyfiawnder Sengl yn gywir a diffyg cydlynw gyda Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF ynghylch gwiriadau canlyniadau ar y Llwyfan Cyffredin. Roedd y canlyniad yn cael effaith ar y data cyfradd treialon aneffeithiol.

3.40. Mewn ymateb, darparwyd hyfforddiant wedi'i dargedu i swyddogion heddlu i wella ansawdd ffeiliau ac fe gyflwynodd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF lys rheoli achosion i'r diben i leihau cyfeiriadau treial diangen i'r CPS. Mae'r mesurau hyn yn cael eu monitro'n fanwl ac wedi tynnu sylw at sut y gall data ddatgelu materion systemig a arwain at welliannau cydweithredol mewn ansawdd gwaith achos ac effeithlonrwydd llys.

3.41. Roedd y berthynas â'r farnwriaeth yn gryf ac yn gynhyrchol, gyda chyfarfodydd strategol a gweithredol yn arwain at welliannau pendant mewn gwaith achos, hyfforddiant ac eiriolaeth. I fynd i'r afael â phryderon barnwrol, derbyniodd tîm Llys y Goron hyfforddiant wedi'i dargedu ar ddrafftio cyhuddiadau, wedi'i gefnogi gan adnoddau ymarferol, a ddywedodd y farnwriaeth wrthym a arweiniodd at welliannau amlwg.

3.42. Cododd Barnwyr Dosbarth fater ynghylch effaith diffyg profiad yn llysoedd yr ynadon. Gweithiodd yr Ardal tuag at ddatrysiad i leddfu'r baich ar erlynwyr a chaniatáu fwy o amser iddynt baratoi ac ymgysylltu'n effeithiol mewn datblygiad achos.

3.43. Mae Cymru yn wynebu sawl her unigryw o ran adnoddau sy'n effeithio'n anuniongyrchol ar ansawdd gwaith achos. Mae Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparu gwasanaeth cyfartal i siaradwyr Gymraeg, er bod cynlluniau fel y Cynllun Hyfforddi Cyfreithiol Gymraeg yn helpu i fynd i'r afael â hyn. Yn ddaearyddol, mae gan Gymru seilwaith trafnidiaeth cyfyngedig, gyda rhai canolfannau llys ond yn hygyrch mewn car ac amseroedd teithio yn aml yn fwy na dwy awr.

3.44. Mae'r model Cymru Gyfan a amlinellir ym mhennod 7 yr adroddiad hwn yn galluogi defnyddio adnoddau'n hyblyg ar draws yr Ardal ac mae'n cael ei gefnogi'n eang gan staff, er ei fod yn cyflwyno heriau diwylliannol a logistaidd. Clywon ni lefelau amrywiol o ymgysylltu a dealltwriaeth, ac roedd rhai aelodau o staff yn meddwl bod perthnasoedd â rhanddeiliaid weithiau'n cael eu straenio gan ddiffyg

cynefindra lleol. Ond mae'r cysyniad yn caniatáu defnyddi effeithiol deinamig o adnoddau ar gyfer gofynion amrywiol y sefydliad.

3.45. Mae'r Ardal wedi dangos ymrwymiad cryf i arloesi a gwella o fewn y system cyfiawnder troseddol, gan gymryd rhan weithredol mewn amrywiaeth o beilotiaid a mentrau sy'n adlewyrchu ei blaenoriaethau strategol a'i chryfderau gweithredol. Gyda hanes o gyflwyno peilotiaid yn llwyddiannus - yn enwedig o fewn cyd-destun Llys y Goron ac yn aml wedi'u cefnogi gan berthnasoedd rhanddeiliaid cryf fel rôl Prif Erlynydd y Goron yn y Grŵp Gwelliannau Llysoedd y Goron - mae'r Ardal yn chwarae rhan allweddol wrth lunio polisi ac ymarfer ar draws Cymru a Lloegr.

3.46. Roedd menter nodedig yn beilot y pecynnau rheithgor digidol, a ddisodlodd becynnau papur traddodiadol gyda datrysiad digidol gyda'r nod o wella effeithlonrwydd a hygyrchedd yn y llys. Cafodd Llys y Goron Abertawe ei ddewis fel safle peilot ac mae'r adborth cynnar gan y farnwriaeth, Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF a'r erlynwyr wedi bod yn gadarnhaol. Mae arsylwadau'n awgrymu bod profiadau treial gwell i ddioddefwyr a thystion yn sicrhau'r dystiolaeth orau ac yn gwella ansawdd gwaith achos.

3.47. Mae'r Ardal yn cymryd rhan mewn llawer o beilotiaid sy'n effeithio ar waith achos Llys y Goron. Mae tîm Llys y Goron wedi parhau i berfformio'n dda, ac mae'r Ardal wedi ymgymryd yn llwyddiannus yn y peilotiaid hyn, sydd wedi bod yn ffactor allweddol sy'n cyfrannu at yrru ansawdd gwaith achos.

3.48. O ystyried bod sail yr arolygiad hwn oedd i nodi pa agweddau sy'n effeithio ar ansawdd gwaith achos da, roeddem wedi amlygu rhai agweddau penodol a nodwyd gennym yn yr arolygiad hwn fel arfer da. Credwn fod yr agweddau penodol canlynol ar arfer da wedi cyfrannu'n glir at ansawdd gwaith achos.

3.49.

Arfer Da
3.50. Defnydd o dreialon ffug i gynyddu gallu a phrofiad erlynwyr llysoedd ynadon, gyda gwerthusiad a sicrwydd gan reolwyr cyfreithiol drwy adborth a sesiynau dan arweiniad cyfoedion i atgyfnerthu dysgu. Paragraffau 3.10 a 5.14
Cyflwynwyd rhaglen sefydlu leol yr Ardal yn 2023-24 pan brofodd yr Ardal gyfaint uchel o erlynwyr newydd yn ymuno. Derbyniodd gydnabyddiaeth genedlaethol am ei ddull strwythuredig a theilwredig, a oedd yn cynnwys amserlenni manwl, disgwyliadau mentora ac adolygiadau cynnydd rheolaidd. Paragraff 3.19

Darparodd y broses sefydlu fframwaith cadarn i gefnogi a chyfarparu'r rhai sy'n ymuno â'r CPS i gyflawni eu rolau. Roedd amserlen pob dechreuwr newydd yn amrywio yn unol â'r hyfforddiant oedd ar gael a'r cynnydd a wnaed; galluogodd y dull hwn gysondeb yr hyfforddiant a sicrwydd bod y camau angenrheidiol ar gyfer datblygiad wedi'u cymryd. Paragraff 4.21

4. Arweinyddiaeth Gyfreithiol a Diwylliant Ardal

Arweinyddiaeth Gyfreithiol a Diwylliant Ardal

Cyfathrebu Mewnol

4.1. Mae'r Ardal yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu i gyflwyno negeseuon allweddol. Yn CPS Cymru-Wales mae'r rhain yn amrywio o alwad Teams ar gyfer pob aelod o staff, bwletinâu wythnosol, cyfarfodydd tîm gyda diweddariadau lleol, a Hwb ar y fewnrwyd leol. Mae'r amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu yn galluogi rheolwyr i gyfleu cyfeiriad yr Ardal o ran gwaith achos, gan gadw staff yn wybodus am faterion strategol a gweithredol.

4.2. Cynhaliwyd galwadau Teams i bob aelod o staff bob pedair i chwe wythnos. Roedd tua 30% o staff yr Ardal yn bresennol yn y galwadau a welsom. Roedd cynnwys y galwadau yn ddefnyddiol, yn ysgogol ac yn gyfoes, gan gynnwys newyddion am beilotiaid diweddar, Arolwg y Bobl a chanmoliaethau. Cyflwynwyd dechreuwyd newydd yn bersonol gan Brif Erlynydd y Goron (CCP) neu Reolwr Busnes yr Ardal (RBA).

4.3. Cefnogwyd yr alwad i bob aelod o staff staff gan ddulliau cyfathrebu eraill drwy safle'r fewnrwyd a thrafodaethau tîm llai. Ond gwelsom fod lledaenu negeseuon yn ddibynnol ar ddisgresiwn rheolwyr llinell priodol. Yn ein harolwg, roedd ymateb cadarnhaol yn gyffredinol i strategaeth gyfathrebu'r Ardal, gyda 69.6% yn nodi bod effeithiolrwydd cyfathrebu wedi arwain at wella ansawdd gwaith achos¹¹.

4.4. Mae'r dulliau cyfathrebu lefel uchel, wedi'u hatgyfnerthu drwy gyfarfodydd tîm, yn ffordd effeithiol o wreiddio negeseuon allweddol. Ond byddai dull strwythuredig gyda mwy o oruchwyliaeth gan uwch reolwyr yn sicrhau cysondeb negeseuon. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried lledaeniad daearyddol yr Ardal a'r canfyddiadau ynghylch model Cymru Gyfan a amlinellir ym mhennod 7 o'r adroddiad hwn.

Llywodraethu

4.5. Adolygodd arolygwyr ddogfennau a ddarparwyd gan yr Ardal, gan gynnwys cofnodion o wahanol gyfarfodydd panel a bwrdd megis Paneli Ymglymiad Craffu Lleol a Chyfarfodydd Gwella Gweithredol ar y Cyd (JOIM). Roedd rhai cofnodion yn anghyflawn ac yn brin o lwybr archwilio clir ar gyfer camau gweithredu sy'n deillio o wersi a ddysgwyd. Mewn un achos, roedd adrannau o'r templed cyfarfod wedi'u gadael yn wag. Roedd ansawdd y cofnodion a bodolaeth a chwblhau logiau

¹¹ Cwestiwn arolwg: Yn seiliedig ar eich profiad gyda rheolwyr yn yr Ardal, sut fydddech chi'n asesu effeithiolrwydd cyfathrebu a'i effaith ar ansawdd gwaith achos?

gweithredu yn amrywio'n sylweddol, yn aml yn dibynnu ar y sefydliad neu unigolyn oedd yn gyfrifol am eu cofnodi. Oherwydd diffyg cadw cofnodion priodol, rhoddwyd camau gweithredu i uwch reolwyr yn absenoldeb llwybr archwilio priodol i fonitro cynnydd.

4.6. O ystyried cyfradd uchel o staff yn gadael rolau uwch a rheoli canol, mae diffyg camau gweithredu clir, yn ogystal â pherchnogaeth ac eglurder o gamau gweithredu cytunedig, yn gwanhau gwydnwch y sefydliad ac yn amlygu'r Ardal i raddau o risg os bydd personél allweddol yn gadael. Er bod llawer iawn o weithgarwch a chyfranogiad gan staff yr Ardal mewn cyfarfodydd gyda phartneriaid sy'n canolbwyntio ar wella safonau a pherfformiad, mae methiant i nodi materion a chymau gweithredu yn annhebygol o ychwanegu'r gwerth a ragwelir neu arwain at welliant. Mae hyn yn tanseilio effeithiolrwydd y grwpiau hyn ac, yn anochel, ni fydd yn arwain at y gwelliant a ddymunir yn ansawdd gwaith achos.

4.7. Y tu hwnt i gyfarfodydd rhanddeiliaid, roedd y llywodraethu o amgylch prosesau gwella mewnol yr Ardal yn cyflwyno pryderon. Dywedodd staff cyflawni gweithredol wrthym nad oedd mecanwaith ffurfiol ar gyfer codi pryderon sy'n ymwneud ag ansawdd. Er bod trafodaethau neilltuol gyda rheolwyr, mynegodd staff rwystredigaeth o beidio â derbyn adborth neu beidio â deall pa gamau, os o gwbl, a gymerwyd o ganlyniad. Arweiniodd y diffyg tryloywder a dilyniant hwn at ganfyddiad nad oedd sgysiau o'r fath yn arwain at welliannau cydnabyddedig.

Hyfforddiant a Datblygiad

4.8. Mae hyfforddiant a datblygiad yn hanfodol ar gyfer cynnal safonau uchel o waith achos. Datgelodd ein harolwg staff Arolygiaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron EF (HMCPSI) fod 83.3% o'r ymatebwyr yn teimlo bod hyfforddiant wedi arwain at naill ai rhywfaint o welliant neu welliant sylweddol yn ansawdd eu gwaith achos¹².

Erlynwyr

4.9. Roedd gan yr Ardal ddulliau amrywiol o hyfforddiant, gan gynnwys hyfforddiant wedi'i dargedu ar ddrafftio cyhuddiadau, treialon ffug yn uned llys yr ynadon a sesiynau datblygu cyfreithwyr. Darparodd staff adborth cadarnhaol ar ansawdd yr hyfforddiant, a gyflwynwyd ar lefel genedlaethol a lleol, gyda sesiynau wyneb yn wyneb yn cael eu gwerthfawrogi'n arbennig. Siaradodd staff yn uchel am eu cydweithwyr sy'n darparu cefnogaeth lai ffurfiol a chyfleoedd cysgodi anffurfiol.

4.10. Mae rhai erlynwyr, yn enwedig yn uned llys yr ynadon, yn teimlo, er eu bod wedi derbyn cyflwyniad lleol cadarnhaol, nad oedd y lefel o gefnogaeth wedi hyn yn darparu goruchwyliaeth ddigonol ac roeddent yn cael eu 'gadael i fynd ymlaen â hi'. Codwyd pryderon gan erlynwyr a fynegodd fod y diffyg profiad cyffredinol o fewn

¹² Cwestiwn arolwg: Pa effaith yw'r hyfforddiant a ddarperir i staff rheng flaen cyfreithiol neu anghyfreithiol CPS wedi'i chael ar ansawdd gwaith achos?

uned llys yr ynadon wedi arwain at erlynwyr newydd yn cysgodi cydweithwyr yn y llys nad oedd yn llawer mwy profiadol na nhw eu hunain.

4.11. Mae rhywfaint o ddibyniaeth ar gysgodi anffurfiol ar gyfer datblygiad. Gall hyn fod yn ddull hyfforddi effeithiol, ond mewn achosion lle mae diffyg profiad gan y bobl sy'n cael eu cysgodi, sydd wedi'i gymhlethu gan ddiffyg profiad llawer o'r rheolwyr cyfreithiol, gall hyn arwain at arfer gwael yn cael ei drosglwyddo. Roedd y dirywiad yn ansawdd gwaith achos a nodwyd gennym rhwng ein hasesiad sylfaenol a gweithgaredd dilynol yn uned llys yr ynadon yn dangos bod diffyg profiad yn ffactor cyfrannol yn ein canfyddiadau.

4.12. Siaradodd staff yn gadarnhaol am y diwylliant o fewn uned llys yr ynadon, gyda'r holl erlynwyr yn barod i helpu a chefnogi ei gilydd. Er bod y bwch profiad o fewn yr uned yn parhau, efallai y bydd rheolwyr uwch yn dymuno ystyried sut i liniaru hyn gyda datblygiad a chefnogaeth ychwanegol.

Rheolwyr Cyfreithiol

4.13. Mae'r Ardal wedi adnewyddu Telerau Cyfeirio'r Bwrdd Ansawdd Gwaith Achos (CQB) (a drafodir ym mhennod 8) ac wedi cyflwyno'r Fforwm Arweinyddiaeth Gyfreithiol (LLF) i gymryd lle diwrnodau Gweithdy Rheolwyr Cyfreithiol.

4.14. Mae Uwch Erlynwyr y Goron Sirol (rheolwyr cyfreithiol uwch) ac Erlynwyr y Goron Sirol (rheolwyr cyfreithiol) wedi esbonio bod hyfforddiant ffurfiol cyfyngedig wedi bod ar gyfer rheolwyr cyfreithiol yn hanesyddol. Mae cyflwyno'r Fforwm Arweinyddiaeth Gyfreithiol misol yn darparu hyfforddiant strwythuredig rheolaidd a dysgu cyfoedion i bob rheolwr cyfreithiol. Mae Erlynwyr y Goron Sirol ac Uwch Erlynwyr y Goron Sirol yn adrodd am rwydweithiau cyfoedion cryf a chefnogaeth uwch ac yn gweld y fforwm arweinyddiaeth gyfreithiol yn ddefnyddiol i'w datblygiad. Mae pwyslais ar ddatblygu talent mewnol drwy ddull 'tyfu eich hun'.

4.15. Mae'r Fforwm Arweinyddiaeth Gyfreithiol yn ffordd effeithiol o arfogi rheolwyr cyfreithiol â gwybodaeth gyfreithiol a sicrhau cysondeb hyfforddiant ar draws unedau i fynd i'r afael ag anghenion a nodwyd gan yr Ardal. Mae pwyslais y Fforwm Arweinyddiaeth Gyfreithiol ar wybodaeth a materion cyfreithiol. Er bod cefnogaeth neilltuol ac unigol, dywedodd rheolwyr cyfreithiol wrthym nad oedd cefnogaeth ategol strwythuredig ar eu cyfer gydag agweddau eraill o'u rolau, gan gynnwys dehongli a dadansoddi data.

4.16. Cododd Erlynwyr y Goron Sirol bryderon am y prosesau sefydlu a oedd ar waith i'w cefnogi wrth gael dyrchafiad. Er bod yr Ardal wedi datblygu cynllun sefydlu sy'n amlinellu cyfrifoldebau rheolaethol ac yn nodi personél allweddol i gynnig cefnogaeth, naill ai nid oedd y cynllun yn cael ei ddilyn neu nid oedd yn cael ei gydnabod fel rhan o lwybr hyfforddi ffurfiol. Gallai hyn fod oherwydd y nifer uchel o

staff ar ddyrchafiad dros dro, sy'n gallu amharu ar gyflwyno datblygiad strwythuredig a gwanhau effeithiolrwydd.

4.17. Esboniodd Erlynwyr y Goron Sirol y byddent yn dibynnu ar gefnogaeth cyfoedion i ennill sgiliau a gwybodaeth, yn hytrach na derbyn arweiniad strwythuredig gan uwch reolwyr. Yn absenoldeb mentora ffurfiol a goruchwyliaeth reolaethol, mae hyn yn peryglu datblygiad arferion anghyson neu wael.

Sefydlu

4.18. Mae sefydlu yn y CPS yn cynnwys hyfforddiant a ddarperir gan y Tîm Hyfforddi Cyfreithiol Canolog (CLTT) a'r Ardal i erlynwyr newydd. Mae'r Rhaglen Sefydlu Cyfreithwyr yn rhaglen genedlaethol a gyflwynir gan y CLTT sy'n darparu hyfforddiant ystafell ddosbarth, llys a hyfforddiant ar-lein i ategu'r hyfforddiant y mae'r newydd-ddyfodiaid yn ei dderbyn gan yr Ardal. Mae'r Rhaglen Sefydlu Cyfreithwyr yn cymryd tri mis i'w chwblhau, gyda modiwlau'n cael eu cynnal ar gyfnodau penodol i alluogi erlynwyr newydd i ymarfer y sgiliau y maent wedi'u dysgu ar y Rhaglen Sefydlu Cyfreithwyr yn eu rôl yn yr Ardal.

4.19. Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) yn recriwtio Erlynwyr y Goron ac Uwch Erlynwyr y Goron gyda chefnidiroedd cyfreithiol troseddol ac arall. I'r bobl heb gefndir mewn cyfraith droseddol, darperir modiwl sylfaen ychwanegol gan CLTT fel rhan o'r LIP.

4.20. Yn 2023-24, profodd yr Ardal nifer uchel o gyfreithwyr newydd yn ymuno â'r Ardal o fewn cyfnod o chwe mis. Lluniwyd cynllun sefydlu manwl a wnaeth gyflwyno'r dechreuwr newydd i'r Ardal a nodi'r ddisgwyliadau a chyfrifoldebau'r rôl gyda gwybodaeth ysgrifenedig a chanllawiau ar droseddau cyffredin a chyfraith achos berthnasol. Datblygwyd amserlen wedi'i theilwra ar gyfer pob dechreuwr newydd a oedd yn nodi'n glir ar sail wythnos-i-wythnos yr hyfforddiant, cysgodi a gwaith arall i'w gyflawni, gyda chynnydd yn cael ei adolygu'n rheolaidd rhwng y dechreuwr newydd ac Erlynnydd y Goron Sirol sefydlu penodedig. Cynhyrchwyd dogfen disgwyliadau mentor fel ei bod yn glir beth oedd yn cael ei ddisgwyl gan y bobl sy'n gweithredu fel mentoriaid i ddechreuwr newydd.

4.21. Darparodd y broses sefydlu, pan ddilynwyd hi, fframwaith cadarn i gefnogi a chyfarparu'r bobl sy'n ymuno â'r CPS wrth gyflawni eu rolau. Roedd amserlen pob dechreuwr newydd yn amrywio yn unol â'r hyfforddiant oedd ar gael a'r cynnydd a wnaed; galluogodd y dull hwn gysondeb yr hyfforddiant a sicrwydd bod y camau angenrheidiol ar gyfer datblygiad wedi'u cymryd. Roedd hyn yn arfer da.

4.22. Derbyniodd yr Ardal gydnabyddiaeth genedlaethol am y rhaglen sefydlu leol. Enillodd y DCP a ddatblygodd y cynllun hwn gan reoli'r tîm sefydlu Wobr Staff am Ragoriaeth o dan y categori "Cefnogi ein Pobl". Oherwydd adnoddau, ar adeg ein harolygiad nid oedd tîm sefydlu penodol yn ei le mwyach, er bod hyn wedi cael

ei adfer yn ddiweddar gan fod yr Ardal yn recriwtio niferoedd mwy o gyfreithwyr newydd. Ond roedd y fframwaith sefydlu gwreiddiol fel y disgrifiwyd uchod yn dal i gael ei ddefnyddio ar gyfer newydd-ddyfodiaid yn ymuno â'r Ardal mewn timau unigol. Derbyniom ni adborth cymysg ar ei gyflwyniad gyda rhai yn mynegi pryderon am gysondeb.

4.23. Bydd dull manwl, strwythuredig a chyson o sefydlu yn helpu i wella ansawdd gwaith achos. Mae'n sicrhau bod newydd-ddyfodiaid yn cael eu cefnogi'n ddigonol wrth ymuno â'r CPS ac yn cael rhaglen glir o hyfforddiant a datblygiad.

Rhaglenni pwrpasol

4.24. Amlygodd y farnwriaeth faterion gyda drafftio cyhuddiadau o fewn tîm y Llys y Goron. Darparwyd hyfforddiant i'r uned a chrewyd 'taflen crib' i ddarparu enghreifftiau model a rhoi awgrymiadau ar ddrafftio. Cadarnhaodd erlynwyr eu bod wedi gweld yr hyfforddiant hwn yn ddefnyddiol. Dangosodd adborth gan y farnwriaeth welliant yn ansawdd y cyhuddiadau. Er bod y gwelliant wedi'i ysgogi gan sylwadau barnwrol, dangosodd ymrwymiad yr Ardal i fynd i'r afael ag adborth a'r gallu i ddatblygu hyfforddiant yn gyflym i fynd i'r afael â phryderon a gwella ansawdd gwaith achos.

4.25. Hefyd, dechreuodd yr Ardal sesiynau datblygu cyfreithwyr yn uned llys yr ynadon. Roeddent yn sesiynau 30-munud misol a gyflwynwyd gan Uwch Erlynwyr y Goron Sirol a Dirprwy Prif Erlynwyr y Goron a oedd yn canolbwyntio ar feysydd penodol ar gyfer datblygu. Arweiniwyd cynnwys y sesiynau gan ddata perfformiad ac unrhyw faterion a allai eu nodi gan gyfreithwyr. Ailadroddwyd yr un sesiwn dair gwaith y mis, gyda'r nod o gyrraedd mwyafrif yr erlynwyr o fewn yr uned. Recordiwyd y sesiwn hefyd ac felly gellir ei chyrchu y tu hwnt i'r sesiynau a drefnwyd. Adroddodd cyfreithwyr eu bod wedi canfod bod y sesiynau hyfforddi targedig, bachog hyn yn ddefnyddiol, yn enwedig gan eu bod wedi'u teilwra i negeseuon allweddol a materion cyfredol yn yr uned a'u bod yn hygyrch. Nid yw'n ymddangos bod unrhyw werthusiad clir o effaith yr hyfforddiant hwn ar ansawdd gwaith achos wedi'i gynnal yn unol â llywodraethu da.

4.26. Nododd yr Ardal drwy ei Asesiadau Ansawdd Unigol nad oedd cam budd y cyhoedd o'r Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron ('y Cod') yn cael ei ystyried yn ddigonol o fewn penderfyniadau cyhuddo ac adolygiadau eraill. Mewn ymateb, canolbwyntiodd Erlynwyr y Goron Sirol ar y mater hwn yn ystod sesiynau hyfforddi ac gyda'r asesiadau ansawdd unigol. Yn dilyn y broses hon, gwelodd Erlynwyr y Goron Sirol welliant gyda chymhwysu'r Cod a chyfeiriwyd at gam budd y cyhoedd yn fwy manwl o fewn adolygiadau. Mae hyn yn adlewyrchu ymagwedd ragweithiol gan yr Ardal i fynd i'r afael â gwendid a gwella ansawdd gwaith achos.

4.27. Roedd tystiolaeth o berthynas waith agos rhwng rheolwyr cyfreithiol y Llys y Goron sydd wedi gweithredu mentrau newydd i gadw staff yn gymhellol, yn

ymwneud â'u gwaith ac yn annog ethos tîm. Siaradodd sawl aelod o staff yn uchel am ddiwrnod cwrdd i ffwrdd tîm Llys y Goron. Trefnwyd y digwyddiad gan ei fod yn cael ei ystyried bod rhai cyfreithwyr, yn enwedig y rhai nad sy'n mynychu'r llys yn rheolaidd, yn gallu colli golwg ar ganlyniadau ehangach. Roedd y digwyddiad yn annog adeiladu tîm ac hefyd yn adfywio ac atgoffa cyfreithwyr o bwysigrwydd eu gwaith a'r effaith sydd ganddo ar y system cyfiawnder troseddol ehangach a dioddefwyr trosedd, gan helpu i wella eu profiad.

Cyflawniad Gweithredol

4.28. Mae gan staff cyflawniad gweithredol yn CPS Cymru-Wales broses sefydlu sy'n cynnwys dibyniaeth ar gysgodi aelodau eraill o'r tîm. Roedd yr hyfforddiant a ddarparwyd i staff cyflawni gweithredol yn yr Ardal yn ddigonol a dywedodd staff eu bod yn teimlo eu bod yn barod i wneud eu swyddi. Roedd gofyn i bob aelod o staff fod yn gwbl gyfarwydd â'r System Rheoli Achosion a hyfforddiant golygu.

4.29. Fel gyda gweddill Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS), ni all staff gofrestru ar gyfer yr hyfforddiant nes eu bod yn dechrau cyflogaeth gyda'r CPS. Unwaith iddynt gael eu cyflogi, roedd enghreifftiau o staff cyflawni gweithredol yn aros dros bedair wythnos i dderbyn hyfforddiant (ac hyd at naw wythnos ar gyfer hyfforddiant golygu, sy'n ofynnol i wneud pecynnu), yn ystod yr amser hwnnw, roeddent ond yn gallu gwneud gwaith ystyrlon cyfyngedig. Er nad oedd y mater wedi'i gyfyngu i CPS Cymru-Wales gan ei fod yn ofyniad rhaglen genedlaethol, roedd yn debygol o effeithio ar ansawdd gwaith achos lleol oherwydd yn ystod yr amser mae aelodau'r tîm yn aros am eu hyfforddiant, roedd y tîm yn ymddangos fel pe bai'n 'llawn staff' ond ni ellir defnyddio adnoddau'n llawn. Mae hyn yn cael effaith ar gynhyrchiant. Unwaith eu bod wedi'u hyfforddi ar y System Rheoli Achosion, eglurodd staff nad oedd llawer o hyfforddiant ffurfiol arall ar gael. Dywedodd bron pob aelod o staff y byddent yn mynd at gydweithiwr profiadol am hyfforddiant a chyingor yn hytrach na rheolwyr, a all arwain at anghysondebau yn y dull gweithredu.

Cyfrifon Dysgu Unigol

4.30. Hyrwyddwyd Cyfrifon Dysgu Unigol ond maen nhw'n cael eu defnyddio'n anghyson. Roedd uwch reolwyr yn cydnabod nad yw staff yn defnyddio eu cyfrifon dysgu unigol cymaint ag y gallent. Rhannodd cyfreithwyr a staff cyflawni gweithredol bryderon gyda'r diffyg amser sydd ar gael i wneud y cyrsiau yr oeddent am eu gwneud, er gwaethaf anogaeth gan reolwyr.

Cymhelliant a chefnogaeth

4.31. Gwelwyd uwch arweinwyr o'r ddau dîm cyflawni gweithredol a chyfreithiol mewn gwahanol swyddfeydd ar draws yr Ardal yn ystod y tair wythnos yr oeddem ar y safle. Cadarnhaodd cyfweiliadau gyda staff fod uwch reolwyr yn weladwy ac yn hawdd mynd atynt. Mae Prif Erlynydd y Goron yn mynychu pob un o'r tair swyddfa yn rheolaidd ac yn gwneud ymdrech i 'gerdded ar lawr y siop'. Er gwaethaf y lefel

uchel o weladwyedd a chefnogaeth barhaus gan uwch arweinyddiaeth, roedd barn am weladwyedd rheolwyr cyfreithiol llinell gyntaf ac ail linell yn gymysg. Yn ein cyfweiliadau, clywon ni fod rhai aelodau o staff yn ne'r Ardal yn teimlo eu bod wedi'u heithrio o negeseuon ynghylch materion fel hyfforddiant a rotas. Roedd rhai rheolwyr yn weladwy ac yn ymgysylltu'n rheolaidd â staff trwy gyfarfodydd tîm a sesiynau un-i-un, ond nid oedd hyn yn gyson. Lle'r oedd cyfarfodydd un-i-un a rheolaidd yn digwydd, roeddent yn meithrin ymddiriedaeth ac eglurder.

4.32. Ond trwy gydol cyfweiliadau gyda rheolwyr a grwpiau ffocws, y teimlad cyffredinol oedd bod rheolwyr yn cael eu parchu'n fawr. Sylwodd nifer o gyfreithwyr ar faint oeddent yn croesawu'r polisi drws agored a fabwysiadwyd gan rai rheolwyr, gan gynnwys y rhai yn y tîm arweinyddiaeth uwch. Gyda lefelau mor uchel o hygyrchedd, roeddem yn gallu gweld parodrwydd cryf i drafod achosion ac awydd i ddysgu o'r trafodaethau hyn i wella ansawdd gwaith achos.

Uned Cyswllt Dioddefwyr

4.33. Mae'r Uned Cyswllt Dioddefwyr yn gwasanaethu fel pwynt cyswllt cyntaf y sefydliad ar gyfer dioddefwyr o dan y cynllun Cyfathrebu a Chyswllt Dioddefwyr a'r Hawl Dioddefwyr i Adolygu. Ar adeg yr arolygiad, roedd yr Uned Cyswllt Dioddefwyr yn mynd trwy gyfnod o drawsnewid yn dilyn ymadawiad arweinydd tîm hirhoedlog a pharchus iawn.

4.34. Roedd gan yr Ardal gynlluniau ar waith i ddisodli rheolwr yr uned, ond cafodd rhain eu disodli oherwydd materion staffio eraill. Er gwaethaf cynlluniau'r Ardal, mae absenoldeb arweinyddiaeth dros dro tra bod y mater staffio yn cael ei ymdrin yn tynnu sylw at fater ehangach o wydnwch sefydliadol cyfyngedig o fewn yr uned. Yn ogystal â'r pryderon strwythurol hyn, adroddodd staff yr Uned Cyswllt Dioddefwyr eu bod yn teimlo ar ymylon y sefydliad ehangach. Er bod gwahoddiadau parhaol yn bodoli i Bennaeth yr Uned Cyswllt Dioddefwyr gymryd rhan mewn cyfarfodydd strategol allweddol, nid oedd y cyfleoedd hyn wedi cael eu cymryd ers ymadawiad deiliad y swydd sylweddol. Dywedwyd wrthym fod hyn wedi newid yn ddiweddar gyda'r rheolwr bellach yn mynychu cyfarfodydd strategol allweddol.

Perthynas Cyflawni Cyfreithiol a Gweithredol

4.35. Fel y nodwyd yn ein hadroddiad archwilio Ardal o CPS Swydd Efrog a Humberside¹³, er bod gan dimau cyfreithiol a chyflawniad gweithredol rolau gwahanol, mae cydweithredu effeithiol yn hanfodol i sicrhau gwaith achos o ansawdd uchel. Mae dealltwriaeth o brosesau, blaenoriaethau a disgwyliadau pob tîm yn allweddol i weithio'n effeithlon a datrys materion yn brydlon. Mae hyn wedi'i

¹³ Rhaglen Archwilio Ardal Cam 3 – CPS Swydd Efrog a Humber, Arolygiaeth Gwasanaeth Erllyn y Goron Ei Mawrhydi, 30 Medi 2025

wreiddio'n glir yng Nghymru a Lloegr ar y lefel uchaf gyda pherthynas gydweithredol gref i'w dangos rhwng y CCP a'r RBA. Ond nid oedd hyn yn gyson ledled yr Ardal.

4.36. Un pryder cyson a amlygwyd mewn cyfweiliadau oedd y diffyg cyfathrebu rhwng timau cyfreithiol a chyflawni gweithredol. Mae staff cyflawni gweithredol yn aml yn teimlo eu bod wedi'u heithrio o drafodaethau strategol, gyda chyfarfodydd fel arfer yn cael eu mynychu gan un tîm yn unig. Roedd hyn yn cyfyngu ar gyflwyno negeseuon allweddol yn gyson. Roedd cyfathrebu a chydweithredu gwael rhwng y ddau dîm yn effeithio'n uniongyrchol ar ansawdd gwaith achos ac effeithlonrwydd gweithredol.

4.37. Roedd gwahaniad corfforol, fel timau'n gweithio ar wahanol loriau yn yr Wyddgrug, yn ychwanegu at y datgysylltiad. Roedd materion tebyg o wahaniad corfforol yn bodoli yng Nghaerdydd tan newidiadau diweddar i gyd-leoli staff. Mae presenoldeb cyfyngedig yn y swyddfa ers pandemig Covid-19 wedi rhwystro cyfleoedd dysgu anffurfiol, yn enwedig i staff newydd sy'n colli allan ar ddysgu drwy sgysiau a glywir a rhyngweithiadau digymell. Mae arweinwyr uwch yn cydnabod yr heriau a gyflwynir gan weithio o bell a gwahaniad corfforol timau ac maent yn gweithio tuag at integreiddio gwell.

4.38. Roedd staff cyflawni gweithredol yn adrodd oedi wrth symud achosion ymlaen oherwydd nad oedd cyfreithwyr yn cwblhau tasgau yn y System Rheoli Achosion. Roedd yr oedi hyn yn effeithio ar fetrigau perfformiad cyflawni gweithredol a chynnydd achosion. Byddai gwell cyfathrebu a chysoni llif gwaith yn helpu i ddatrys materion fel hyn. Rhannwyd enghraifft gadarnhaol lle cydweithiodd aelod o staff cyflawni gweithredol yn uniongyrchol â chyfreithiwr gan arwain at euogfarn lwyddiannus. Ond priodolwyd hyn i berthynas bresennol, gan amlygu'r angen am newid diwylliannol ehangach.

4.39. Er symlrwydd rhai materion, ymddangosai bod adborth i wella perfformiad yn aneffeithiol. Yn flaenorol, roedd erlynwyr newydd yn cysgodi staff cyflawni gweithredol am bythefnos i adeiladu dealltwriaeth a pherthnasoedd, ond mae hyn wedi dod i ben oherwydd pwysau gwaith achos. Gallai ailgyflwyno'r arfer hwn wella cydweithrediad a sicrhau bod cyfreithwyr yn deall yn well rolau cyflawni gweithredol a'r dibyniaethau gyda chanlyniad cadarnhaol ar ansawdd gwaith achos.

4.40. Roedd anghysbell rhwng y pryderon a godwyd yn ein grwpiau ffocws cyflawniad gweithredol am raniad canfyddedig, a'r canfyddiad o reolwyr cyfreithiol a chyflawni gweithredol a ddisgrifiodd berthnasoedd cryf. Ond mae Prif Erlynydd y Goron yn cydnabod llwyddiannau a heriau mewn cydweithrediad cyfreithiol a chyflawniad gweithredol. Mae menter beilot yn swyddfa'r Wyddgrug yn anelu at ddatrys rhai o'r materion hyn a meithrin gwell integreiddio, datblygiad sy'n cael ei ehangu arno yn y bennod nesaf.

5. Creadigrwydd ac Arloesedd

Creadigrwydd ac Arloesedd

Peilotiaid

5.1. Mae gan yr Ardal hanes o ddatblygu a chyflwyno peilotiaid. Cynorthwywyd llwyddiant peilotio gan berthnasoedd cryf yr Ardal â rhanddeiliaid ar lefelau uwch. Mae'r Ardal yn falch o fod yn rhan o beilotiaid ac i lunio dyfodol y Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) a'r system cyfiawnder troseddol.

5.2. Mae peilotio yn galluogi'r Ardal i ddylanwadu, llunio a deall syniadau arloesol yn gynnar. Mae staff yn gallu cael mantais gychwynnol tuag at fod yn fedrus gyda thechnoleg neu raglenni. Mae peilotiaid hefyd yn annog gwell ymgysylltiad â rhanddeiliaid. Gyda'r lefel o ddiffyg profiad a throsiant staff, mae cost i beilotiaid, ond mae manteision llywodraethu peilotiaid yn amlwg i'w gweld pan fod peilot yn cael ei fabwysiad yn llawn a'i weithredu.

5.3. Tra ar y safle, roedd pecynnau rheithgor digidol yn cael eu peilota yn Llys y Goron Abertawe, sef un o dri safle peilot cenedlaethol. Roedd hyn yn ateb digidol i ddisodli pecynnau rheithgor papur traddodiadol ac maent yn gam sylweddol tuag at wella effeithlonrwydd a hygyrchedd yn y llysoedd. Roedd yr Ardal yn awyddus i fod yn rhan o'r peilot hwn er mwyn dylanwadu ar y gwaith a sicrhau bod yr ateb digidol yn galluogi cydymffurfiaeth â rhwymedigaethau o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993. Roedd gofyn i'r Ardal gyflwyno hyfforddiant i'w staff ac i'r Bar allanol.

5.4. Mae defnyddio'r pecynnau wedi derbyn adborth cadarnhaol. Er bod eu defnydd yn eu camau cynnar, roeddent yn effeithiol wrth fynd â rheithgor drwy dystiolaeth ac yn gwella effeithlonrwydd pan oedd angen diweddariadau i'r pecyn. O ganlyniad, roedd hyn yn gwella profiad cyffredinol dioddefwyr a thystion, gan eu galluogi i roi dystiolaeth well, gan wella ansawdd gwaith achos.

5.5. Roedd yr Ardal hefyd i fod i dreialu rôl baragyfreithiol wedi'i fireinio. Nod y peilot oedd archwilio sut y gallai timau Llys y Goron ddefnyddio sgiliau swyddogion baragyfreithiol yn well i gefnogi erlynwyr mewn achosion Llys y Goron, gan ddiffinio ac ymgorffori rolau a chyfrifoldebau'n glir, meithrin perchnogaeth achos ar y cyd i adeiladu sgiliau ac atebolrwydd, gwella cydymffurfiaeth â phrosesau, ac archwilio dulliau gweithio newydd neu ddiwygiedig. Bydd hyn yn galluogi erlynwyr i ganolbwyntio ar wneud penderfyniadau cyfreithiol a strategaeth achos. Bydd y cysyniad yn cael ei dreialu'n gychwynnol yn Yr Wyddgrug o fis Medi 2025. Yn ogystal â chaniatáu mwy o amser i gyfreithwyr ymgymryd â gwaith cyfreithiol craidd, o ystyried ein canfyddiadau, rydym yn disgwyl i hyn arwain at wella ansawdd gwaith achos drwy wella berthnasoedd rhwng cyflawniad gweithredol a chyfreithiol a amlinellir ym mhennod 4.

5.6. Mae Prif Erlynydd y Goron yn eistedd ar Grŵp Gwelliannau Llysoedd y Goron, sef rôl ddylanwadol sy'n galluogi'r Ardal i fanteisio ar beilotiaid. Roedd y rhai sy'n effeithio ar waith yn nhîm y Llys y Goron yn thema gyffredin ac yn ffactor allweddol a gyfrannodd at berfformiad parhaus y tîm, rhwng ein harolygiad sylfaenol a'r dilyniant dilynol.

Llysoedd Gwrandawriad Paratoi at Frigadu Pledio a Threial

5.7. Yn hanesyddol, trefnwyd gwrandawriadau paratoi pledion a threial ar draws De Cymru gyda fawr ddim cydlynu o ran amseru neu leoliad. Nododd y barnwyr fod cynnydd yn aml yn araf oherwydd bod cyfreithwyr yn aml yn cael trafferth cysylltu â chyfreithwyr am gyfarwyddiadau. Ym mis Gorffennaf 2024, trafododd yr Ardal grwpio'r gwrandawriadau paratoi pledion a threial ar ddydd Llun a dydd Gwener yn Llys y Goron Caerdydd. Gwnaed y fenter hon yn bosibl trwy ddefnyddio Erlynydd y Goron Sirol i gefnogi achosion yn y llys.

5.8. Dangosodd arsylwadau'r llys fod Erlynydd y Goron Sirol wedi chwarae rôl allweddol wrth adolygu achosion mewn amser real, gan feithrin ymgysylltiad adeiladol gyda'r amddiffyniad a'r cyfreithwyr. Roedd ymrwymiad clir, ar y cyd i symud achosion ymlaen yn effeithlon. Mynegodd Erlynydd y Goron Sirol gefnogaeth gref i'r fenter.

5.9. Roedd Rheolwr Busnes Gweithredol Uwch Llys y Goron yn dadansoddi data yn weithredol i asesu effaith llysoedd gwrandawriad paratoi pledion a threial brigâd. Roedd yr Ardal yn defnyddio data i ddeall achosion o ohirio a gyrru gwelliannau perfformiad ac effeithlonrwydd gweithredol. Mae hyn yn dangos bod pocedi o ddull mwy strwythuredig a fforensig tuag at gamau sy'n cael eu cymryd, ond mae hyn yn ymddangos yn fwy cyfyngedig i brosiectau penodol. O ystyried y pwysau y mae Llysoedd y Goron yn eu hwynebu, credwn y bydd y fenter hon yn tynnu achosion o'r system, yn gwella effeithlonrwydd ac yn hyrwyddo cynnydd mewn achosion presennol a fydd yn gwella ansawdd gwaith achos.

Cynllun Hyfforddi Cyfreithiol Cymru

5.10. Mae'r Ardal wedi cyflwyno cynllun olyniaeth sy'n anelu at gynyddu nifer yr erlynwyr sy'n siarad Cymraeg. Cafodd y fenter hon ei chydabod fel cam strategol cadarnhaol, gan helpu i lenwi bwlch a allai fod wedi effeithio'n andwyol ar ansawdd gwaith achos, yn enwedig o ran cadarnhad tystiolaethol a phrydlondeb. Roeddem yn falch o arsylwi'r cynllun mewn ymarfer yn ystod ein cyfweiliad ag aelod o staff.

Treialon ffug

5.11. Nodwyd bod angen hyfforddiant drwy adborth gan Farnwyr Dosbarth y byddai erlynwyr yn llys yr ynadon yn elwa o fwy o brofiad treial. Lluniwyd treial ffug gan un o Erlynwyr y Goron Sirol uned llys yr ynadon a fu gynt yn Eiriolwr y Goron.

Cysylltodd y DCP â Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF i ddefnyddio ystafell llys ar gyfer y digwyddiadau a sicrhau swyddogion heddlu i weithredu fel tystion, gan felly hyrwyddo cydweithredu a rhoi profiad bywyd go iawn i'r holl bartïon mewn amgylchedd diogel i ddatblygu sgiliau.

5.12. Cyn y treial ffug, cynhaliodd Erlynnydd y Goron Sirol asesiad ansawdd unigol o bob un o'r erlynwyr a oedd yn cymryd rhan a tharged eu cyfranogiad. Roedd pob erlynnydd a gymerai ran yn gyfrifol am un elfen o'r treial (er enghraifft, agoriad, croesholi, cais i wrthod) a byddai'n cynnal y rhan honno o'r treial. Cymerodd arweinwyr uwch ran drwy gymryd rôl y barnwr.

5.13. Yn dilyn y digwyddiad, roedd Erlynnydd y Goron Sirol yn gallu darparu adborth unigol i'r cyfreithwyr ac yn nodi meysydd gwaith cadarnhaol a meysydd ar gyfer datblygu. Yn ogystal, cafodd pob cyfreithiwr y dasg o ddatblygu 'taflen crib' o'r elfen o'r treial roeddent yn gyfrifol amdani, i'w dosbarthu ledled yr uned. Roedd Sesiynau Datblygu Cyfreithwyr hefyd yn cael eu cynnal ar elfennau'r prawf ac roedd erlynwyr yn arwain y sesiynau perthnasol i'w cyfranogiad yn y prawf.

5.14. Mae'r digwyddiad hyfforddi arloesol hwn wedi cael derbyniad da gan erlynwyr yn uned llys yr ynadon, yn ogystal â chan gydweithwyr yr heddlu a Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF. Mae ail ddigwyddiad wedi digwydd yn Abertawe, ac mae'n cael ei ragweld y bydd y digwyddiad yn cael ei gyflwyno ar draws yr Ardal yn rheolaidd.

5.15. Er ei fod yn ddwys o ran adnoddau, mae'r hyfforddiant yn darparu ar gyfer datblygiad eiriolaeth da yn ogystal â chryfhau dysgu o'r digwyddiad trwy'r erlynwyr yn darparu hyfforddiant eu hunain ar eu pynciau penodol. Mae'r dull yn cyfrannu'n gadarnhaol at godi safonau ansawdd gwaith achos ac yn adlewyrchu ymrwymiad i welliant parhaus ac mae'n cael ei ystyried yn arfer da.

6. Gwella ac Ymgysylltu ar y Cyd

Gwella ac Ymgysylltu ar y Cyd

Perthnasoedd uwch ac ymgysylltu â rhanddeiliaid

6.1. Mae perthnasoedd CPS Cymru-Wales ar lefelau uwch ar draws y system cyfiawnder troseddol (CJS) yn gryf. Roedd tystiolaeth glir bod cryn dipyn o amser wedi'i dreulio yn ymgysylltu â rhanddeiliaid, ac roedd pob rhanddeiliad a gyfweliwyd yn siarad yn uchel am uwch-reolwyr yr Ardal.

6.2. Roedd y cofnodion ymgysylltu cymunedol yn dangos ystod sylweddol o ddigwyddiadau a grwpiau cymunedol, gyda digwyddiadau lluosog bob mis. Roedd y dogfennau'n nodi ystod o fforymau a byrddau goruchwyllo lle cynhaliwyd cyfarfodydd gyda'r heddlu a Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF.

Dioddefwyr a Thystion

6.3. Mae dioddefwyr a thystion wrth wraidd y System Cyfiawnder Troseddol. Ni fyddai erlyniadau cyhoeddus yn bosibl heb y rhai sy'n darparu tystiolaeth werthfawr i'r erlyniad ddibynnu arni a sicrhau cyfiawnder. Mae eu dewrder a'u penderfyniad yn darparu'r sylfaen y mae achosion yn cael eu hadeiladu arni: mae'n hanfodol eu bod yn cael eu cefnogi'n briodol, eu hawliau'n cael eu hyrwyddo a'u hannog i gymryd rhan yn effeithiol ym mhob cam o'r broses cyfiawnder troseddol.

6.4. Bu dirywiad yn ansawdd trin dioddefwyr a thystion gan CPS Cymru-Wales yn achosion llysoedd yr ynadon rhwng ein harolygiad sylfaenol a'r dilyniant. Roedd hyn yn cynnwys materion fel rhybuddio tystion am ddyddiadau treial, gohebiaeth amserol gyda'r unedau gofal tystion a chael gorchmynion priodol wrth ddedfrydu.

Ansawdd trin dioddefwyr a thystion			
	Llysoedd yr Ynadon		
	Sylfaen	Dilyniant	Cyfeiriad Teithio
Cymru-Wales	70.8%	56.3%	▼ (-14.5%)
Cenedlaethol	70.3%	71.3%	▲ (+1%)
	Llys y Goron		
	Sylfaen	Dilyniant	Cyfeiriad Teithio
Cymru-Wales	74.1%	75.5%	▲ (+1.4%)
Cenedlaethol	71.5%	71.2%	▶ (-0.3%)

6.5. Roedd cyfraddau athreuliad dioddefwyr a thystion yng Nghymru yn uchel ac yn parhau i fod yn uchel, ac yn 9% yn chwarter olaf 2024-25. Amlygodd y Rheolwr

Perfformiad Ardal (APM) fod Cymru-Wales yn bedwerydd o ran llwyth achos cam-drin domestig yn genedlaethol, a bod gan gam-drin domestig gyfradd arosiad anghymesur o uchel yn aml. Trafodir cam-drin domestig ymhellach yn bennod 8.

6.6. Er bod ceisiadau am fesurau arbennig wedi gwella yn gyffredinol, roedd achosion lle nad oedd ceisiadau wedi adlewyrchu'r cais a wnaed gan y dioddefwr/tyst ar ffurflen yr heddlu. Roedd hefyd achosion lle roedd cais am Orchymyn Atal wedi'i wneud yn lle symud ymlaen i dreial. Derbyniodd uwch reolwyr nad oedd rhai tystion yn cael eu cefnogi'n iawn gan nad oedd pob cais perthnasol yn cael ei wneud, ac mae hyn yn deillio o'r angen i wneud penderfyniadau anodd yn aml yn ystod adolygiadau yn ogystal â gwella cyfathrebu â'r unedau gofal tystion yr heddlu.

6.7. Adroddodd yr heddlu am faterion gyda chymhellion tystion neu lythyrau gofal dioddefwyr. Canmolodd Cyngor ar Bopeth y Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) am ddarparu safon uchel o wasanaeth yn ystod achos sensitif lle roedd dirywiad mewn perthnasoedd teuluol yn peryglu tanseilio ymgysylltiad tystion. Gweithiodd tîm y CPS gyda Chyngor ar Bopeth i sicrhau bod dioddefwyr a thystion yn parhau i gael cefnogaeth ac yn ymgysylltu drwy gydol y broses. Hefyd, roedd mentrau cryf yn cefnogi'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol mewn perthynas â thrais yn erbyn gweithwyr gofal iechyd.

6.8. Mae dioddefwyr a thystion yn flaenoriaeth allweddol o dan Fyrddau Cyfiawnder Troseddol Cymru. Ond o ystyried lefelau athreuliad tystion, ein pryderon yn m mhennod 4 am yr Uned Cyswllt Dioddefwyr a sylwadau uwch reolwyr uchod, mae lle i wella yn y maes hwn.

Ymgysylltiad amddiffyniad

6.9. Rhaid i gyfranogwyr mewn achosion troseddol gydymffurfio â'r amcan cyffredinol i ddelio ag achosion yn deg o dan y Rheolau Gweithdrefn Droseddol. I gyflawni hyn, dylai'r CPS ymgysylltu â'r amddiffyniad ar gamau allweddol o'r achos. Fel y clywn yn rheolaidd mewn Ardaloedd CPS eraill, mynegodd yr amddiffyniad a'r erlynwyr rwystredigaeth bod diffyg ymgysylltiad rhwng y partïon. Nid yw'r trefniadau presennol ar gyfer talu i'r amddiffyniad yn cymell ymgysylltiad cynnar. Canran yr achosion a fethodd neu a oedd yn aneffeithiol yn llys yr ynadon oherwydd rhesymau erlyn yn chwarter cyntaf 2025-26 oedd 28.4%, sef y ganran uchaf yn genedlaethol.

6.10. Yn ein cyfweiliadau gyda gweithwyr amddiffyniad, nodwyd ganddynt nad oedd erlynwyr yn y Llys y Goron yn ymgysylltu'n rhagweithiol gyda'r amddiffyniad tan glyweiliadau llys. Mae'r rhwymedigaeth i ymgysylltu yn disgyn ar bob plaid a gall y ffaith nad yw'r amddiffyniad yn cael ei dalu i ymgysylltu'n gynnar mewn llawer o achosion gael effaith andwyol ar effeithiolrwydd achosion. Oni bai bod achosion

yn cael eu rheoli'n effeithiol mewn gwrandawiadau paratoi pledion a threialon, sydd wedi gwella gyda'r brigâd a phresenoldeb Erlynydd y Goron Sirol yn y gwrandawiadau paratoi pledion a threial, nid oedd materion a dadleuon yn aml yn dod i'r amlwg tan yn hwyrach yn yr achos. Mae ymgysylltu cynnar yn unol â'r Rheolau Gweithdrefn Droseddol yn cefnogi datblygiad achos effeithiol ac yn ofyniad hanfodol o ymarfer troseddol.

Ymgysylltu'r Heddlu

6.11. Roedd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddol a Phrif Swyddogion yn rhannu perthnasoedd cryf gyda CPS Cymru-Wales. Mae Prif Erlynydd y Goron yn cwrdd yn rheolaidd â Phrif Gwnstablaid, gyda llawer o faterion yn cael eu datrys rhwng Dirprwy Brif Erlynwyr y Goron a Dirprwy Brif Gwnstablaid.

6.12. Blaenoriaeth strategol i'r Ardal dros y flwyddyn oedd gwella'r cyfathrebu â'r heddlu, a thrwy hynny wella'r berthynas waith gydweithredol. Yn hanesyddol, mae'r prif ddull o gyfathrebu rhwng erlynwyr a swyddogion heddlu wedi bod yn electronig yn hytrach na sgwrs uniongyrchol. Mae'r Ardal wedi hyrwyddo dull lle mae erlynwyr yn cael eu hannog i siarad ag ymchwilwyr i drafod materion gyda'r achosion, yn hytrach na danfon cynllun gweithredu achos, a gobeithiwyd y byddai hyn yn gwella gafael ar achosion. Mae hyn yn gadarnhaol ac yn cyd-fynd ag argymhellion ein hadroddiad arolygu ar y cyd ar adeiladu achosion yr heddlu a'r erlyniad a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2025¹⁴. Nid yw ein canfyddiadau yn cefnogi bod y cyfeiriad strategol hwn wedi'i weithredu'n llwyddiannus. Derbyniom ni lefel sylweddol o adborth negyddol gan yr heddlu a'r erlynwyr ynghylch cyfathrebu gwael rhwng y sefydliadau gan ymarferwyr rheng flaen. Efallai y bydd yr Ardal am gynnal gwaith sicrwydd i benderfynu ble mae rhwystrau'n parhau.

6.13. Ond siaradodd yr heddlu yn gadarnhaol am y cymorth rhagorol gan erlynwyr a gymerodd gyfrifoldeb personol am achosion difrifol a chymhleth pan gyrhaeddodd nhw gamau critigol.

Cyfarfodydd Gwella Gweithredol ar y Cyd

6.14. Mae Cyfarfodydd Gwella Gweithredol ar y Cyd (JOIMs) yn brif fforwm i'r heddlu a'r CPS i drafod gwelliannau gweithredol lleol. Fe wnaethom ni ganfod datgysylltiad rhwng y perthnasoedd effeithiol a chryf ar lefelau strategol ac effeithiolrwydd y perthnasoedd yn y cyfarfodydd gweithredol.

6.15. Dywedodd yr heddlu fod y data sydd ar gael ar gyfer JOIMs yn gyfyngedig, yn hen ffasiwn ac yn annigonol o ran darparu rheolaeth perfformiad amser real.

